Llywodraeth Cymru
Welsh Government

YSTADEGAU

# Crynodeb perfformiad a gweithgaredd y GIG: Ionawr a Chwefror 2022

Adroddiad yn crynhoi data am weithgarwch a pherfformiad yn y GIG yng Nghymru ar gyfer Ionawr a Chwefror 2022.

Cyhoeddwyd gyntaf: 24 Mawrth 2022

Diweddarwyd ddiwethaf: 24 Mawrth 2022

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-ionawr-chwefror-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys

Cyflwyniad

Prif bwyntiau

Gofal heb ei drefnu

Gwybodaeth allweddol am ansawdd

Manylion cyswllt

Ar hyn o bryd rydym yn adolygu ein hallbynnau ar gyfer crynodeb perfformiad a gweithgarwch y GIG. Gallai hyn gynnwys rhoi'r gorau i'r dangosfwrdd PowerBi a gwneud y datganiad ystadegol hwn yn fwy cryno. Mae eich adborth yn bwysig i ni a byddem yn gwerthfawrogi eich cyfraniad ynghylch pa allbynnau sydd fwyaf defnyddiol a phwysig i chi fel rhywun sy'n defnyddio ein hystadegau. Cyfeiriwch unrhyw adborth sydd gennych ar y datganiad ystadegol hwn at **ystadegau.iechyd@llyw.cymru**.

# Cyflwyniad

Darperir data newydd ar alwadau i'r gwasanaeth ambiwlans, nifer y bobl sy'n mynd i adrannau brys a'r nifer sy'n cael eu derbyn i'r ysbyty o adrannau achosion brys mawr ar gyfer mis Chwefror 2022.

Darperir data newydd sy'n ymwneud ag atgyfeiriadau ar gyfer apwyntiad cyntaf

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-ionawr-chwefror-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

fel claf allanol, amseroedd aros am wasanaethau diagnostig a therapi, amseroedd rhwng atgyfeirio a thriniaeth (gan gynnwys llwybrau cleifion caeedig a llwybrau cleifion sy'n aros i ddechrau triniaeth) a'r llwybr amheuaeth o ganser ar gyfer mis Ionawr 2022.

Ceir rhagor o fanylion ar y data ym mhob maes pwnc ar ein gwefan **StatsCymru**, ac ar ein **dangosfwrdd rhyngweithiol**.

Ar 16eg Mawrth, mae'r gwasanaeth 111 wedi cael ei gyflwyno ledled Cymru.
Yn natganiad ystadegol mis Mai, byddwn yn cyhoeddi data ar y gwasanaeth 111 ar gyfer mis Ebrill 2022.
Bydd hyn yn cynnwys data ar alwadau sy'n cael eu cynnig, eu hateb, a galwadau sy'n cael eu gadael. Bydd y data hyn yn cael eu cyhoeddi ar StatsCymru yn bennaf.

## Sylw'r ystadegydd

Mae'r data diweddaraf am fis Chwefror yn dangos bod mwy o alwadau wedi'u gwneud i'r gwasanaeth ambiwlans na'r mis blaenorol. Mae nifer y galwadau sy'n bygwth bywyd yn dal yn uchel ac nid yw'r targed perfformiad yn cael ei gyrraedd o hyd.

Cynyddodd nifer y derbyniadau dyddiol i adrannau brys ar gyfartaledd, a hynny'n digwydd ar yr un pryd â gostyngiad mewn perfformiad yn erbyn y targedau pedair awr a deuddeg awr. Mae cleifion yn dal i dreulio mwy o amser na'r cyfartaledd mewn adrannau brys, gyda mwy o gleifion yn aros mwy na 12 awr nag mewn unrhyw fis hyd yma, ac eithrio mis Hydref 2021.

Cynyddodd y rhestr aros am driniaeth, ond mae cyfradd y cynnydd yn dal yn llawer is nag yr oedd yn gynharach yn y pandemig. Mae hyn yn rhannol oherwydd y nifer ail fwyaf o lwybrau a gafodd eu cau fesul diwrnod gwaith ers dechrau'r pandemig. Mae amseroedd aros cleifion yn dal yn uchel, gyda'r amser aros canolrifol ychydig o dan 24 wythnos a'r nifer uchaf erioed o lwybrau cleifion yn aros yn hwy na 36 wythnos.

Mae'r amser aros cyfartalog am therapïau wedi bod yn cynyddu yn ystod y

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-ionawr-chwefror-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

misoedd diwethaf ac roedd perfformiad yn erbyn y targed 14 wythnos wedi gwaethygu ym mis Ionawr.

Mae nifer y llwybrau canser sydd wedi cau oherwydd nad oedd canser ar y claf wedi cynyddu y mis hwn. Fodd bynnag, gostyngodd perfformiad yn erbyn y targed 62 diwrnod ar gyfer trin canser i'r gyfran isaf ar gofnod ers casglu data cymaradwy am y tro cyntaf.

## Prif bwyntiau

- Ym mis Chwefror 2022, ar gyfartaledd, gwnaed 1,228 o alwadau i'r gwasanaeth ambiwlans bob dydd, 37 (3.1%) yn fwy bob dydd ar gyfartaledd na'r mis blaenorol.
- Ym mis Chwefror 2022, roedd 109 ar gyfartaledd o alwadau ('coch') lle'r oedd bywyd yn y fantol yn cael eu gwneud bob dydd. Dyma'r nawfed mis yn olynol lle cafwyd dros 100 o alwadau bob dydd ar gyfartaledd i'r gwasanaeth ambiwlans lle'r oedd bywyd yn y fantol.
- Roedd 55.0% o alwadau coch wedi cael ymateb o fewn 8 munud ym mis Chwefror 2022, sef 2.5 pwynt canran yn uwch na'r mis blaenorol.
- Yr amser ymateb cyfartalog (canolrifol) i alwadau lle'r oedd bywyd yn y fantol (coch) oedd 7 munud a 23 eiliad, sef 16 eiliad yn gyflymach nag ym mis Ionawr 2022.
- Roedd nifer gyfartalog yr ymweliadau ag adrannau achosion brys 8.7% yn uwch nag yn y mis blaenorol.
- Ym mis Chwefror 2022, gostyngodd y perfformiad yn erbyn targed 4 awr a 12 awr yr adran achosion brys.
- Roedd yr amser cyfartalog (canolrifol) a dreuliwyd mewn adrannau achosion brys ym mis Chwefror 2022 wedi cynyddu ers y mis blaenorol i 3 awr. Dyma'r ail amser hiraf erioed ers dechrau casglu data cymaradwy ym mis Ebrill 2012.
- Mae nifer y llwybrau cleifion sy'n aros am brofion diagnostig yn dal yn sylweddol uwch na chyn i'r pandemig ddechrau, ond gostyngodd 1.6% ym mis Ionawr 2022, o'i gymharu â'r mis blaenorol. Fodd bynnag, dim ond mymryn o gynnydd a fu yn y nifer a oedd yn aros yn hwy na'r amser targed.
- Cynyddodd nifer y llwybrau cleifion a oedd yn aros am therapïau bob mis

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-ionawr-chwefror-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

bron yn 2021 ac mae wedi cynyddu yn y mis diweddaraf yn 2022. Mae'r targed perfformiad o 14 wythnos yn dal i gael ei fethu, ac mae'r nifer sy'n aros yn hirach na'r amser targed wedi cynyddu am yr wythfed mis yn olynol.
- Roedd bron i 690,000 o lwybrau cleifion yn aros i ddechrau triniaeth. Gwelwyd cynnydd bob mis ers mis Ebrill 2020 yng nghyfanswm y llwybrau cleifion a atgyfeiriwyd ond a oedd yn aros i ddechrau triniaeth. Ym mis Ionawr 2022, y cynnydd ers y mis blaenorol oedd y cynnydd ail leiaf o fis i fis ers dechrau'r pandemig.
- Mae nifer y llwybrau sy'n cau yn ystod y mis wedi bod ar gynnydd ers mis Ebrill 2020, gydag amrywiadau o fis i fis. Cafodd bron i 69,000 o lwybrau eu cau ym mis Ionawr 2022, cynnydd bach ers y mis blaenorol.
- Ar gyfartaledd, nifer y llwybrau wedi'u cau fesul diwrnod gwaith oedd yr ail uchaf ers dechrau'r pandemig.
- Mae COVID-19 wedi cael effaith amlwg ar berfformiad yn erbyn y ddau darged atgyfeirio am driniaeth. Roedd canran y llwybrau cleifion a oedd yn aros llai na 26 wythnos wedi gostwng ers y mis blaenorol, ac roedd nifer y llwybrau a oedd yn aros mwy na 36 wythnos wedi cynyddu i'r nifer uchaf erioed.
- Cynyddodd nifer y llwybrau cleifion a agorwyd yn ystod y mis, yn dilyn amheuaeth newydd o ganser, 13.9%, i 13,480, o'i gymharu â'r mis blaenorol.
- Roedd nifer y llwybrau lle'r oedd cleifion a oedd newydd gael diagnosis o ganser wedi cael eu triniaeth ddiffiniol gyntaf ym mis Ionawr 2022 wedi gostwng 4.0% o gymharu â'r mis blaenorol, i 1,492.
- Roedd nifer y llwybrau a gafodd eu cau ar ôl i'r claf gael gwybod nad oedd canser arno wedi cynyddu o gymharu â'r mis blaenorol i 11,590.
- Bu gostyngiad yn y perfformiad ar gyfer y targed canser 62 diwrnod o gymharu â'r mis blaenorol, gyda 53.0% o gleifion yn dechrau ar eu triniaeth ddiffiniol gyntaf yn ystod y mis o fewn yr amser targed.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-ionawr-chwefror-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.


Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Gofal heb ei drefnu

## Galwadau brys i'r gwasanaeth ambiwlans

### Gweithgaredd

**Siart 1: Nifer cyfartalog y galwadau ambiwlans brys bob dydd, yn ôl math o alwad a mis Chwefror 2016 i Chewfror 2021**




Ffynhonnell: Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru

**Galwadau ambiwlans brys ac ymatebion i alwadau coch, fesul bwrdd iechyd lleol a mis ar StatsCymru**

Sylwer: Mae addasu'r arferion delio â galwadau ym mis Mai 2019 wedi arwain at wahaniaethau yn nifer y galwadau coch. Felly, nid yw'n bosibl cymharu niferoedd digwyddiadau coch yn deg cyn hyn. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn yr adran **gwybodaeth allweddol am ansawdd**.


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-ionawr-chwefror-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Cyn y pandemig, roedd cyfanswm nifer y galwadau brys i Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru wedi bod yn cynyddu'n raddol dros y tymor hir, ond gostyngodd y nifer ar ddechrau'r pandemig. Er bod amrywiadau misol, mae nifer cyfartalog y galwadau bob dydd wedi aros yn weddol sefydlog dros y 4 mis diwethaf

Ym mis Chwefror 2022, gwnaethpwyd mwy na 34,000 o alwadau brys i'r gwasanaeth ambiwlans. Mae hyn yn 1,228 o alwadau y dydd ar gyfartaledd, cynnydd o 37 (3.1%) yn fwy o alwadau ar gyfartaledd y dydd nag yn y mis blaenorol, a 78 (6.8%) yn fwy o alwadau bob dydd ar gyfartaledd na'r mis cyfatebol y llynedd.

Mis Chwefror 2022 oedd y nawfed mis yn olynol pryd cafwyd dros 100 o alwadau bob dydd ar gyfartaledd lle'r oedd bywyd yn y fantol.

Mae galwadau i'r gwasanaeth ambiwlans yn cael eu categoreiddio fel galwadau coch, ambr neu wyrdd yn dibynnu ar pa mor frys yw'r alwad. Ym mis Chwefror 2022, 8.5% oedd cyfran yr holl alwadau lle'r oedd bywyd yn y fantol (galwadau coch), i lawr o 9.2% ym mis Ionawr 2022.

## Targed


- Ymateb i 65% o alwadau coch (lle mae bywyd yn y fantol, mae rhywun mewn perygl o farw'n gyflym, fel ataliad ar y galon) o fewn 8 munud.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-ionawr-chwefror-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Siart 2: Canran yr ymatebion brys sy'n cyrraedd lleoliad y claf o fewn 8 munud i ateb galwad goch a sefydlu'r brif gwyn, Chwefror 2016 i Chwefror 2021




Ffynhonnell: Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru

### Galwadau ambiwlans brys ac ymatebion i alwadau coch, fesul bwrdd iechyd lleol a mis ar StatsCymru

Sylwer: Mae addasu'r arferion delio â galwadau ym mis Mai 2019 wedi arwain at wahaniaethau yn nifer y galwadau coch. Felly, nid yw'r perfformiad yn erbyn y targed ar ôl y dyddiad hwn, a'r perfformiad cyn y dyddiad hwn, yn gallu cael eu cymharu'n deg. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn yr adran **gwybodaeth allweddol am ansawdd**.

Gyda phandemig COVID-19 yn parhau, mae'n rhaid i dimau ymateb i argyfwng gyflawni camau ychwanegol, gan gynnwys gwisgo cyfarpar diogelu personol ychwanegol, ac mae hynny'n effeithio ar ba mor gyflym y gallant ymateb i alwad.

Mae'r perfformiad o'i gymharu â'r targed ymateb 8 munud ar gyfer galwadau coch wedi bod yn is ar y cyfan ers dechrau'r pandemig ac nid yw'r targed wedi'i gyrraedd am yr 19 mis diwethaf.


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-ionawr-chwefror-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Ym mis Chwefror 2022, roedd 55.0% o'r ymatebion brys i alwadau (coch) lle'r oedd bywyd yn y fantol wedi cyrraedd o fewn 8 munud. Mae hyn 2.5 pwynt canran yn uwch nag yn y mis blaenorol, ond 9.4 pwynt canran yn is na mis Chwefror 2021.

Mae dadansoddi'r amseroedd ymateb cyfartalog yn rhoi cyd-destun ehangach i ddata perfformiad. Mae canolrif yr amser ymateb yn amrywio o fis i fis, ond dros y pedair blynedd cyn y pandemig, roedd yn tueddu i amrywio rhwng 4 munud 30 eiliad a 6 munud yng nghyswllt galwadau coch. Fodd bynnag, mae wedi bod dros 6 munud ym mhob mis ers mis Awst 2020, gan gyrraedd 8 munud 1 eiliad ym mis Hydref 2021. Ym mis Chwefror 2022, canolrif yr amser aros ar gyfer galwadau lle'r oedd bywyd yn y fantol (galwadau coch) oedd 7 munud a 23 eiliad. Mae hyn 16 eiliad yn gyflymach nag ym mis Ionawr 2022, ond ychydig dros funud yn arafach nag ym mis Chwefror 2021.

Mae'r mwyafrif o alwadau i'r gwasanaeth ambiwlans yn cael eu categoreiddio fel galwadau ambr. Nid oes targed yn gysylltiedig ag amseroedd ymateb ar gyfer galwadau ambr, ond mae gwybodaeth gyd-destunol yn dangos mai ychydig dros awr ac 17 munud oedd canolrif yr amser ymateb ar gyfer galwadau ambr ym mis Chwefror 2022. Mae hyn bron i 15 munud yn arafach nag ym mis Ionawr 2022, a mwy na 46 munud yn arafach nag ym mis Chwefror 2021.

## Ymweliadau ag adrannau achosion brys a derbyniadau i'r ysbyty

Yn y datganiad ystadegol hwn, mae 'adran achosion brys' yn cyfeirio at y niferoedd sy'n ymweld ac yn cael eu derbyn mewn adrannau damweiniau ac achosion brys mawr, adrannau damweiniau ac achosion brys eraill ac unedau mân anafiadau, oni nodir yn wahanol.

Mae ystod ehangach o ystadegau perfformiad adrannau achosion brys yn cael eu cyhoeddi ar **wefan yr Uned Comisiynu Cydweithredol Cenedlaethol** (NCCU), fel gwybodaeth reoli. Mae hyn yn cynnwys mesur yr amser rhwng y claf yn cyrraedd a chael ei frysbennu, yr amser rhwng y claf yn cyrraedd a chael cysylltiad â rhywun sy'n gwneud penderfyniadau clinigol, a dadansoddiad o ble

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-ionawr-chwefror-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.


fydd y claf yn mynd ar ôl gadael yr adran achosion brys. Mae’r rhain yn cael eu diweddaru bob mis ar yr un diwrnod â’r cyhoeddiad Ystadegau Gwladol hwn.

Diffinnir ymweliad newydd fel ymweliad cyntaf claf i adran achosion brys ar gyfer anaf neu anhwylder penodol. Os bydd claf yn dychwelyd i adran achosion brys gyda chyflwr a oedd yn cael ei drin yn flaenorol lle na ofynnwyd iddo ddychwelyd gan y clinigydd, bydd hyn hefyd yn cael ei gyfrif fel ymweliad newydd. Mae hyn yn golygu bod y data a gyflwynir ar gyfer ymweliadau ac nid yw’n gyfrif unigol o gleifion sy’n mynd i adrannau brys.

Mae’r amser a dreulir mewn cyfleuster gofal brys yn dechrau pan fydd y cyfleuster gofal brys yn cael gwybod bod y claf wedi cyrraedd yr ysbyty, ac mae'n stopio pan fydd y claf yn cael ei dderbyn, ei drosglwyddo neu ei ryddhau.

## Gweithgaredd

### Siart 3: Nifer y bobl a fu'n bresennol yn adrannau achosion brys GIG Cymru, a derbyniadau i ysbytai o ganlyniad i fod yn bresennol mewn adrannau achosion brys mawr,Chwefror 2016 i Chwefror 2021




Ffynhonnell: Set ddata adran achosion brys (EDDS), Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW)


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-ionawr-chwefror-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Nifer yr ymweliadau ag adrannau achosion brys GIG Cymru fesul band oedran, rhyw a safle ar StatsCymru

Sylwer: Mae Siart 3 yn dangos nifer yr ymweliadau ag adrannau achosion brys mawr ac unedau mân anafiadau, a nifer y derbyniadau i'r ysbyty ar ôl mynd i adrannau achosion brys mawr yn unig. Nid yw derbyniadau i ysbyty o unedau mân anafiadau yn cael eu cofnodi'n gyson ledled Cymru, ac felly nid ydynt yn cael eu cyfrif yn y siart hwn.

Er bod ymweliadau ag adrannau achosion brys yn amrywio o fis i fis, mae nifer yr ymweliadau'n uwch ar y cyfan ym misoedd yr haf na'r gaeaf.

Mae pandemig COVID-19, a oedd wedi dechrau yn gynnar yn 2020, wedi effeithio ar yr ymweliadau â holl adrannau achosion brys GIG Cymru. Gwelwyd gostyngiadau sydyn yn nifer yr ymweliadau ym misoedd y gwanwyn a'r gaeaf dilynol, sy'n cyd-fynd â thonnau'r pandemig. Er bod presenoldeb yn ystod haf 2021 yn debyg iawn i fisoedd yr haf cyn y pandemig, ers hynny gostyngodd ymweliadau ym mhob mis bron ac ar hyn o bryd maent yn is na'r lefelau cyn y pandemig.

Mae'r data diweddaraf yn dangos y bu bron 74,000 o ymweliadau â holl adrannau achosion brys GIG Cymru ym mis Chwefror 2022. Mae hyn yn gyfartaledd o 2,626 ymweliad y dydd; 210 yn fwy o ymweliadau y dydd ar gyfartaledd na'r mis blaenorol, a 672 yn fwy na'r un mis y llynedd.

Cyfanswm nifer yr ymweliadau ag adrannau achosion brys yn ystod y flwyddyn hyd at fis Chwefror 2022 oedd bron 996,000. Mae hyn 31.6% yn uwch na'r flwyddyn flaenorol (y flwyddyn yn dod i ben ym mis Chwefror 2021), ond 6.9% yn is na'r cyfnod diwethaf o 12 mis cyn y pandemig (mis Mawrth 2019 i fis Chwefror 2020).

Mae'r duedd o ran derbyniadau i'r ysbyty ar ôl mynd i adrannau achosion brys mawr yn debyg i'r duedd ar gyfer ymweliadau â phob adran achosion brys ers y pandemig.

Ym mis Chwefror 2022, derbyniwyd ychydig dros 12,600 o gleifion i'r un ysbyty neu i ysbyty gwahanol ar ôl bod mewn adran achosion brys mawr. Roedd hyn

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-ionawr-chwefror-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.


8.5% yn is na’r mis blaenorol, ond 5.2% yn uwch na’r un mis yn 2021.

## Perfformiad

### Targedau

- Dylai 95% o gleifion newydd dreulio llai na 4 awr mewn adrannau achosion brys o’r eiliad iddynt gyrraedd nes iddynt gael eu derbyn, eu trosglwyddo neu eu rhyddhau.
- Ni ddylai’r un claf orfod aros mwy na 12 awr mewn adrannau achosion brys o’r eiliad iddynt gyrraedd nes iddynt gael eu derbyn, eu trosglwyddo neu eu rhyddhau.

### Siart 4: Canran y cleifion sy’n cael eu derbyn, eu trosglwyddo neu eu rhyddhau o fewn 4 awr mewn adrannau achosion brys y GIG, Chwefror 2017 i Chwefror 2022




Ffynhonnell: Set ddata adran achosion brys (EDDS), Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW)

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-ionawr-chwefror-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Perfformiad yn erbyn targed 4 awr fesul ysbyty ar StatsCymru

Sylwer: Mae'r data ar gyfer pob mis rhwng mis Mawrth 2021 a mis Hydref 2021 wedi'i newid ar ôl ailgyflwyno data. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn **gwybodaeth allweddol am ansawdd**.

Yn ystod y pum mlynedd cyn y pandemig, roedd canran y cleifion a gâi eu derbyn, eu trosglwyddo neu eu rhyddhau o fewn 4 awr i gyrraedd adran achosion brys yn amrywio o fis i fis, ond roedd yn tueddu i fod yn agos at 80%. Ond, yn ystod y flwyddyn cyn pandemig COVID-19, roedd y ganran hon wedi gostwng yn y rhan fwyaf o fisoedd, gan gyrraedd y pwynt isaf ym mis Rhagfyr 2019, cyn dechrau cynyddu ym misoedd cynnar 2020.

Yn ystod misoedd cynnar y pandemig, roedd perfformiad yn erbyn yr amser targed 4 awr wedi gwella, gan gyrraedd uchafbwynt o 87.7% ym mis Mai 2020. Ers hynny, bu tuedd tuag i lawr yn gyffredinol, ac ym mis Hydref 2021 roedd y perfformiad misol ar ei lefel isaf ers i ddata cymaradwy ddechrau cael ei gofnodi ym mis Ebrill 2012.

Mae data'r mis diwethaf yn dangos fod 66.6% o gleifion yn holl adrannau achosion brys y GIG wedi treulio llai na 4 awr yn yr adran, o'r eiliad iddynt gyrraedd nes iddynt gael eu derbyn, eu trosglwyddo neu eu rhyddhau. Roedd hyn 1.5 pwynt canran yn uwch na'r mis blaenorol, ac 8.4 pwynt canran yn is na'r un mis flwyddyn yn ôl. Nid yw'r targed o 95% yn cael ei gyrraedd o hyd.

Mae'r wybodaeth gyd-destunol yn dangos bod canolrif yr amser y mae cleifion yn ei dreulio mewn adrannau achosion brys wedi cynyddu'n raddol, o lai na 2 awr yn y rhan fwyaf o fisoedd yn 2012 a 2013 i tua 2 awr a 30 munud drwy gydol 2019, cyn pandemig COVID-19.

Yn ystod rhan gyntaf y pandemig, wrth i nifer yr ymweliadau ostwng, roedd canolrif yr amser a dreulid yn yr adran wedi gostwng i isafbwynt o 1 awr a 47 munud ym mis Ebrill 2020. Ers hynny, mae canolrif yr amseroedd wedi cynyddu, gan gyrraedd y lefel uchaf erioed ym mis Hydref 2021.


Ym mis Chwefror 2022, canolrif yr amser a dreuliwyd mewn adran oedd 3 awr, y trydydd uchaf erioed. Roedd hyn yn gynnydd o 2 awr 52 munud yn y mis

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-ionawr-chwefror-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

blaenorol, ac i fyny o 2 awr 29 munud yn yr un mis yn 2021.

Mae canolrif yr amser sy'n cael ei dreulio mewn adran achosion brys yn amrywio yn ôl oedran. Cyn y pandemig, yn gyffredinol roedd plant yn treulio rhwng 1 awr 30 munud a 2 awr mewn adrannau achosion brys, a chleifion hŷn (85 oed a hŷn) yn treulio rhwng 3 awr 30 munud a 5 awr mewn adrannau achosion brys yn gyffredinol. Ym mis Chwefror 2022, treuliodd plant 0-4 oed 2 awr 10 munud ar gyfartaledd mewn adrannau achosion brys, a threuliodd oedolion 85 oed a hŷn 8 awr 16 munud ar gyfartaledd, hwn oedd yr arhosiad cyfartalog hwyaf ers i ddata cymaradwy gael ei gofnodi gyntaf ym mis Ebrill 2012 ar gyfer y grŵp oedran hwn.

**Siart 5: Nifer y cleifion sy'n aros mwy na 12 awr i gael eu derbyn, eu trosglwyddo neu eu rhyddhau i adrannau achosion brys y GIG, Chwefror i Chwefror 2022**




Ffynhonnell: Set ddata adran achosion brys (EDDS), Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW)

## Perfformiad yn erbyn targed 4 awr fesul ysbyty ar StatsCymru

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-ionawr-chwefror-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Sylwer: Mae'r data ar gyfer pob mis rhwng mis Mawrth 2021 a mis Hydref 2021 wedi'i newid ar ôl ailgyflwyno data. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn yr adran **gwybodaeth allweddol am ansawdd**.

Mae nifer y cleifion a dreuliodd 12 awr neu fwy yn un o adrannau achosion brys y GIG, o'r eiliad iddynt gyrraedd nes iddynt gael eu derbyn, eu trosglwyddo neu eu rhyddhau yn amrywio o fis i fis, ond roedd wedi bod ar gynnydd yn gyffredinol cyn pandemig COVID-19.

Ym mis C 2020, ychydig cyn y pandemig, ychydig mwy na 5,200 o gleifion oedd wedi treulio 12 awr neu fwy mewn adrannau achosion brys. Gostyngodd hyn i lai na 500 ym mis Ebrill 2020, yn ystod cyfnodau cynnar pandemig COVID-19. Ers y pwynt isaf hwnnw, mae'r nifer sy'n treulio 12 awr neu fwy wedi cynyddu'n gyffredinol ac wedi cyrraedd y lefel uchaf erioed ym mis Hydref 2021.

Ym mis Chwefror2022, roedd bron 9,200 o gleifion yn aros 12 awr neu fwy. Roedd hyn 152 yn fwy nag yn y mis blaenorol a'r ail uchaf erioed ers dechrau adrodd ar ddata ym mis Ebrill 2012.

## Gofal wedi'i drefnu

Yn y rhan fwyaf o setiau data ar gyfer gofal wedi'i drefnu, mae gweithgarwch a pherfformiad yn cael eu mesur drwy gyfrif llwybrau cleifion. Dyma'r llwybr penodol y mae claf yn ei ddilyn o'i atgyfeiriad cyntaf nes bydd yn dechrau ar driniaeth. Gall amrywiaeth o weithwyr iechyd proffesiynol wneud atgyfeiriadau, ond gan amlaf maent yn dod drwy feddygon teulu. Llwybrau cleifion sy'n cael eu mesur yn hytrach na chleifion, gan fod un claf yn gallu cael nifer o atgyfeiriadau ar gyfer nifer o lwybrau. Felly, mae cyfri llwybrau yn adlewyrchu'n well y gweithgarwch yng ngwasanaethau'r GIG.

### Atgyfeiriadau cleifion allanol

Mae ystadegau atgyfeirio cleifion allanol yn dangos data misol ar nifer y ceisiadau atgyfeirio am apwyntiad claf allanol cyntaf a dderbyniwyd gan fyrddau iechyd lleol yng Nghymru, ni waeth ym mha ardal y maent yn byw.


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-ionawr-chwefror-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Felly, nid yw’r data hwn yn cynnwys unrhyw atgyfeiriadau a wnaed yng Nghymru i ysbyty y tu allan i Gymru, ond mae’n cynnwys atgyfeiriadau a wnaed i ysbytai yng Nghymru ar gyfer pobl sy’n byw y tu allan i Gymru.

Y dyddiad atgyfeirio yw'r dyddiad pryd mae'r bwrdd iechyd lleol yn derbyn yr atgyfeiriad ac nid y dyddiad pryd cafodd y claf ei atgyfeirio.

## Gweithgaredd

### Siart 6: Nifer cyfartalog yr atgyfeiriadau dyddiol ar gyfer apwyntiad cyntaf fel claf allanol, Ionawr 2017 i Ionawr 2022




Ffynhonnell: Set Ddata Atgyfeiriad Cleifion Allanol, Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW)

### Perfformiad yn erbyn targed 4 awr fesul ysbyty ar StatsCymru

Bu gostyngiad mawr yn nifer yr atgyfeiriadau ar gyfer apwyntiad cyntaf fel claf allanol ym mis Mawrth 2020, ar ôl dechrau pandemig COVID-19. Mae’r gweithgarwch wedi cynyddu yn y misoedd ers hynny ond roedd nifer yr

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-ionawr-chwefror-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.


atgyfeiriadau a wnaed yn y mis diwethaf (mis Ionawr 2022) yn debyg i'r nifer a wnaed yn yr un mis cyn y pandemig (mis Ionawr 2020).

Ar gyfartaledd, roedd 3,168 o atgyfeiriadau ar gyfer apwyntiad cyntaf fel claf allanol wedi'u gwneud bob dydd ym mis Ionawr 2022. Mae hyn yn gynnydd o 5.1% (152 yn fwy o atgyfeiriadau bob dydd ar gyfartaledd) o'i gymharu â mis Rhagfyr 2021.

## Amseroedd Aros Diagnostig a Therapi (DATS)

### Gweithgaredd

**Siart 7: Cyfanswm y llwybrau cleifion sy'n aros am wasanaethau diagnostig a therapi, Ionawr 2017 i Ionawr 2022**




Ffynhonnell: Gwasanaethau Diagnostig a Therapi (DATS), Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW)

Amseroedd Aros Gwasanaethau Diagnostig a Therapi yn ôl wythnos ar

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-ionawr-chwefror-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Sylwer: Mae’r pwynt isel ym mis Ebrill 2020 ar gyfer therapïau yn rhannol oherwydd nad oedd Betsi Cadwaladr wedi cyflwyno data ar gyfer y mis hwn. Er mwyn darparu graddfa debygol yr effaith, roedd data ar gyfer Betsi Cadwaladr yn y ddau fis bob ochr yn dangos bod 7,519 yn aros am therapïau ym mis Mawrth 2020 a bod 9,840 yn aros ym mis Mai 2020.

Cyn pandemig COVID-19, roedd nifer y llwybrau cleifion a oedd yn aros am brofion diagnostig wedi bod ar gynnydd, ac roedd y nifer a oedd yn aros am therapïau wedi bod yn gostwng.

Mae’r data diweddaraf ar gyfer mis Ionawr 2022 yn dangos bod 107,000 o lwybrau cleifion yn aros am brofion diagnostig, gostyngiad o 1.6% o’i gymharu â’r mis blaenorol. Mae nifer y llwybrau sy’n aros am brofion diagnostig yn is na’r cyfnod brig ym mis Medi 2020 ond mae wedi bod ar gynnydd ers mis Ebrill 2021.

Mae nifer y llwybrau sy’n aros am brofion diagnostig yn y mis diweddaraf 47.8% yn uwch na’r mis cyfatebol cyn y pandemig (mis Rhagfyr 2019).

Yn dilyn y nifer isaf erioed ym mis Ebrill 2020, roedd nifer y llwybrau cleifion a oedd yn aros am therapïau’n gymharol gyson am weddill misoedd 2020, ond cynyddodd yn ystod 2021 gan gyrraedd ei lefel uchaf erioed ym mis Tachwedd 2021 ac mae wedi bod yn weddol sefydlog ers hynny.

Mae’r data diweddaraf am fis Ionawr 2022 yn dangos bod bron i 57,000 o lwybrau cleifion yn aros am therapïau, cynnydd o o.8% o’i gymharu â’r mis blaenorol.


## Perfformiad

### Targedau

- Yr amser aros hiraf i gael profion diagnostig penodol yw 8 wythnos.
- Yr amser aros hiraf i gael gwasanaethau therapi penodol yw 14 wythnos.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-ionawr-chwefror-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

### Siart 8: Canran y llwybrau cleifion sy’n aros yn hwy na’r amser targed ar gyfer gwasanaethau diagnostig a therapi yn ôl targed, Ionawr 2017 i Ionawr 2022




Ffynhonnell: Gwasanaethau Diagnostig a Therapi (DATS), Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW)

**Amseroedd Aros Gwasanaethau Diagnostig a Therapi yn ôl wythnos ar StatsCymru**

Sylwer: Ni wnaeth Betsi Cadwaladr gyflwyno data ar gyfer mis Ebrill 2020, felly nid ydynt wedi’u cynnwys yn ffigurau Cymru ar gyfer y mis hwn.

Mae pandemig COVID-19 wedi cael effaith amlwg ar nifer y llwybrau cleifion sy’n aros yn hirach na’r amser targed am wasanaethau diagnostig a therapi. Mae rhagor o fanylion ar gael yn yr adran **gwybodaeth allweddol am ansawdd**.

Ym mis Mai 2020 cafwyd y nifer fwyaf o lwybrau a oedd yn aros yn hirach na’r amser targed ar gyfer profion diagnostig. Mae’r nifer sy’n aros wedi gostwng yn y misoedd ers hynny, ond mae wedi bod ar i fyny yn gyffredinol ers mis Ebrill 2021.

Ddiwedd mis Ionawr 2022, roedd bron i 49,000 o lwybrau cleifion yn aros yn


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-ionawr-chwefror-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

hirach na'r amser targed. Roedd hyn yn gynnydd bach o'i gymharu â'r mis blaenorol, a bron i ddeng gwaith yn fwy na'r mis cyfatebol cyn y pandemig (mis Ionawr 2022).

Ym mis Mehefin 2020 cafwyd y nifer uchaf o lwybrau a oedd yn aros yn hirach na'r amser targed am brofion diagnostig. Roedd y duedd o'r pwynt uchel hwn ar i lawr tan fis Mai 2021; mae'r nifer wedi cynyddu bob mis ers hynny.

Ddiwedd mis Ionawr 2022, roedd ychydig dros 13,000 o lwybrau cleifion yn aros yn hirach na'r amser targed am therapïau. Mae hyn yn gynnydd o 24.0% o'i gymharu â mis Rhagfyr 2021, a'r wythfed cynnydd o fis i fis yn olynol.

Hyd at bandemig COVID-19, mae gwybodaeth gyd-destunol yn dangos bod canolrif yr amseroedd aros ar gyfer profion diagnostig yn weddol sefydlog ers 2017 ac ar gyfer gwasanaethau therapi ers 2018. Roedd canolrif yr amseroedd aros ar gyfer y ddau wasanaeth wedi cyrraedd uchafbwynt ym mis Mehefin 2020 (14.3 wythnos ar gyfer diagnosteg ac 14.9 wythnos ar gyfer therapïau).

Ym mis Ionawr 2022, 6.9 wythnos oedd canolrif yr amser aros ar gyfer profion diagnostig. Roedd hyn wedi cynyddu o 6.7 wythnos ym mis Rhagfyr 2021.

Ym mis Ionawr 2022, 7.0 wythnos oedd canolrif yr amser aros ar gyfer gwasanaethau therapi. Mae hyn wedi cynyddu o 6.5 wythnos ym mis Rhagfyr 2021.

## Amser rhwng atgyfeirio a thriniaeth

Mae'r ystadegau ar gyfer yr amser rhwng atgyfeirio a thriniaeth yn dangos data misol ar yr amseroedd aros ar gyfer llwybrau agored a chaeedig ar ôl derbyn atgyfeiriad gan feddyg teulu neu ymarferydd meddygol arall i'r ysbyty am driniaeth yn y GIG yng Nghymru.

Nid yw data am drigolion o Gymru sydd wedi cael eu trin neu sy'n aros am driniaeth y tu allan i Gymru wedi cael eu cynnwys.

Yn ôl y diffiniad, bydd claf wedi cael ei drin neu bydd ei lwybr wedi'i gau ar ôl

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-ionawr-chwefror-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

iddo gael ymgynghoriad ag arbenigwr mewn ysbyty a bernir nad oes angen triniaeth yn yr ysbyty arno neu pan fydd y driniaeth yn dechrau. Gallai hyn gynnwys:

- cael ei dderbyn i'r ysbyty am lawdriniaeth neu driniaeth;
- dechrau triniaeth ond nad oes angen aros yn yr ysbyty (er enghraifft, meddyginiaeth neu ffisiotherapi);
- dechrau gosod dyfais feddygol megis bresys coes; neu
- dechrau cyfnod o amser y cytunwyd arno i fonitro cyflwr y claf i weld a oes angen triniaeth bellach.

Mae COVID-19 wedi effeithio ar y ffordd mae triniaethau'n cael eu cynnig. Mae rhagor o fanylion ar gael yn yr adran **gwybodaeth allweddol am ansawdd**.

At ddibenion rhyddhau, diffinnir y diwrnod atgyfeirio fel y diwrnod y mae'r ysbyty'n derbyn y llythyr cyfeirio.


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-ionawr-chwefror-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Gweithgaredd

### Siart 9: Nifer y llwybrau cleifion sy’n aros i ddechrau triniaeth, Ionawr 2017 i Ionawr 2022




Ffynhonnell: Amseroedd aros Rhwng Atgyfeirio a Thriniaeth, Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW)

**Llwybrau cleifion sy’n aros i ddechrau triniaeth fesul mis, wythnosau wedi’u grwpio a cham y llwybr ar StatsCymru**

Cyn pandemig COVID-19, roedd nifer y llwybrau cleifion a oedd yn aros i ddechrau triniaeth fel arfer yn amrywio bob mis ac yn tueddu i fod ar ei uchaf ddiwedd yr haf ac ar ei isaf ym mis Ionawr.


Mae pandemig COVID-19 wedi effeithio ar gyfanswm nifer y llwybrau cleifion sy’n aros i ddechrau triniaeth. Mae’r nifer wedi cynyddu’n raddol bob mis ers mis Ebrill 2020, gan gyrraedd ychydig dros 689,000 erbyn diwedd mis Ionawr 2022. Dyma’r ffigur uchaf ers dechrau casglu data cymaradwy yn 2011.

Roedd hyn 0.5% yn uwch na’r mis blaenorol, y cynnydd ail leiaf o fis i fis ers dechrau’r pandemig, a 49.2% yn uwch nag yn y mis cyn y pandemig (mis

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-ionawr-chwefror-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Chwefror 2020).

## Siart 10: Nifer y llwybrau cleifion sydd wedi cau, Ionawr 2017 i Ionawr 2022




Ffynhonnell: Amseroedd aros Rhwng Atgyfeirio a Thriniaeth, Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW)

**Llwybrau cleifion ar gau yn ôl y mis, y bwrdd iechyd lleol a'r wythnosau aros ar StatsCymru**

Sylwer: Nid yw Bwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg wedi gallu darparu data llwybrau sydd wedi cau ers mis Medi 2018**.** Mae data ar gyfer y bwrdd iechyd hwn wedi'u heithrio o gyfanswm Cymru yn y siart er mwyn ei gwneud hi'n bosibl dadansoddi tueddiadau. Mae rhagor o fanylion ar gael yn yr adran **gwybodaeth allweddol am ansawdd**.

Mae nifer y llwybrau cleifion sydd wedi cau yn amrywio'n sylweddol o fis i fis ac yn tueddu i fod yn is ym mis Ebrill a mis Rhagfyr, ond roedd y niferoedd wedi aros yn weddol agos at 80,000 y mis dros y 3 blynedd diwethaf, cyn pandemig COVID-19.

Ar ddechrau'r pandemig, cafwyd gostyngiad sydyn yn nifer y llwybrau a gafodd


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-ionawr-chwefror-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

eu cau, gyda'r nifer lleiaf erioed yn cael eu cau ym mis Ebrill 2020. Yn y rhan fwyaf o fisoedd ers hynny, mae nifer y llwybrau cleifion sydd wedi cau wedi cynyddu, ac mae bron iawn wedi dychwelyd i'r lefel cyn COVID-19.

Cafodd bron i 69,000 o lwybrau cleifion eu cau ym mis Ionawr 2022. Mae hyn yn gyfartaledd o 3,433 o lwybrau cleifion wedi'u cau am bob diwrnod gwaith, cynnydd o 5.3% ers mis Rhagfyr 2021.


## Perfformiad

### Targedau

- 95% o gleifion yn aros llai na 26 wythnos ar ôl atgyfeirio
- Dim cleifion yn aros yn hirach na 36 wythnos am driniaeth ar ôl atgyfeirio.
- Cyn pandemig COVID-19, roedd y perfformiad yn erbyn y ddau darged amser rhwng atgyfeirio a thriniaeth yn weddol sefydlog rhwng 2016 a dechrau 2019, ond roedd wedi bod yn dirywio ers canol 2019.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-ionawr-chwefror-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Siart 11: Canran y llwybrau cleifion sy'n aros llai na 26 wythnos, yn ôl mis ac wythnosau o aros, Ionawr 2017 i Ionawr 2022




Ffynhonnell: Amseroedd aros Rhwng Atgyfeirio a Thriniaeth, Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW)

### Canran y llwybrau cleifion sy'n aros i ddechrau triniaeth o fewn y targed amser fesul mis a grwpiau o wythnosau ar StatsCymru


Roedd canran y llwybrau cleifion a oedd yn aros llai na 26 wythnos wedi gostwng ar ddechrau pandemig COVID-19, gan gyrraedd y lefel isaf erioed ym mis Medi 2020. Mae rhywfaint o duedd ar i fyny wedi bod yng nghanran y cleifion sy'n aros llai na 26 wythnos ers hynny, ond mae'n dal yn is o lawer na'r cyfnod cyn y pandemig.

O blith y 683,000 o lwybrau cleifion a oedd yn aros i ddechrau triniaeth erbyn diwedd mis Rhagfyr 2021, roedd 53.5% wedi bod yn aros llai na 26 wythnos.

Mae hyn 1.2 pwynt canran yn is nag ym mis Tachwedd 2021, a 30.0 pwynt canran yn is nag ym mis Rhagfyr 2019.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-ionawr-chwefror-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Siart 12: Nifer y llwybrau cleifion oedd wedi aros mwy na 36 wythnos, yn ôl mis ac wythnosau o aros, Ionawr 2017 i Ionawr 2022




Ffynhonnell: Amseroedd aros Rhwng Atgyfeirio a Thriniaeth, Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW)

**Canran y llwybrau cleifion sy'n aros i ddechrau triniaeth o fewn y targed amser fesul mis a grwpiau o wythnosau ar StatsCymru**

Mae rhagor o wybodaeth am flaenoriaethu amseroedd aros yn glinigol ar gael yn ein hadran **gwybodaeth allweddol am ansawdd**.

Mae nifer y llwybrau cleifion sydd wedi bod yn aros mwy na 36 wythnos wedi cynyddu'n sylweddol ers dechrau pandemig COVID-19. Roedd rhywfaint o ostyngiad rhwng mis Tachwedd 2020 a mis Mawrth 2021, ond mae'r nifer wedi cynyddu ers hynny, gan gyrraedd y lefel uchaf erioed ers dechrau casglu data cymaradwy yn 2011 ym mis Ionawr 2022.

Ym mis Ionawr 2022, roedd bron i 251,000 o lwybrau cleifion wedi bod yn aros mwy na 36 wythnos o'r dyddiad pryd cafodd y llythyr atgyfeirio ei dderbyn gan yr ysbyty. Roedd hyn yn 36.4% o'r holl lwybrau cleifion sy'n aros i ddechrau triniaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-ionawr-chwefror-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Mae hyn 5,810 (neu 2.4%) yn fwy o lwybrau'n aros nag ym mis Rhagfyr 2021, a bron i ddeg gwaith yn fwy na'r mis cyn y pandemig (mis Chwefror 2020.

Mae gwybodaeth gyd-destunol yn dangos mai canolrif amser aros llwybr claf i ddechrau triniaeth oedd oddeutu 10 wythnos yn gyffredinol rhwng diwedd 2013 a mis Chwefror 2020, ond mae wedi cynyddu ers pandemig COVID-19 ac wedi cyrraedd y lefel uchaf erioed o 29 wythnos ym mis Hydref 2020. Ers hynny, mae'r amseroedd aros cyfartalog wedi gostwng yn y rhan fwyaf o fisoedd, ond maent yn dal yn uwch na'r lefelau cyn y pandemig.

Ym mis Ionawr 2022, canolrif yr amser aros oedd 23.6 wythnos, sef cynnydd o 23.2 wythnos ym mis Rhagfyr 2021.

## Gwasanaethau canser

Mae data ar lwybrau agored a chaeedig bellach ar gael drwy'r Adnodd Data Cenedlaethol, sy'n cael ei gynnal gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru. Fe'u cyhoeddir yma yn y datganiad ystadegol hwn ac ar **StatsCymru.**

Mae rhagor o fanylion ar gael yn yr adran **gwybodaeth allweddol am ansawdd**.

## Ystadegau arbrofol: Y llwybr amheuaeth o ganser

Mae llwybr amheuaeth o ganser yn dechrau pan fydd amheuaeth yn codi (er enghraifft pan fydd meddyg teulu'n gwneud atgyfeiriad) a dyma pryd mae'r amser aros a gofnodir yn dechrau. Bydd y llwybr yn cael ei gau, a'r amser aros yn dod i ben, os bydd y claf yn dechrau ei driniaeth ddiffiniol gyntaf; yn cael gwybod nad oes canser arno (yn cael ei israddio); yn dewis peidio â chael triniaeth; neu os bydd y claf yn marw.

Mae data'r llwybr caeedig a gyflwynir yn y datganiad ystadegol hwn yn cynnwys dim ond llwybrau cleifion sy'n dechrau eu triniaeth ddiffiniol gyntaf neu sy'n cael gwybod nad oes canser arnynt (wedi'u hisraddio). Nid yw'r data'n cynnwys llwybrau lle mae'r claf yn dewis peidio â chael triniaeth neu lwybrau lle mae'r claf

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-ionawr-chwefror-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

yn marw cyn dechrau ei driniaeth ddiffiniol gyntaf (ni waeth a oes diagnosis positif neu negyddol o ganser).

Mae data’r llwybr amheuaeth o ganser yn cael ei fesur gan lwybrau cleifion yn hytrach na chleifion unigryw. Mae hyn oherwydd y gall un claf gael nifer o lwybrau canser wedi’u hagor os amheuir bod canser mewn mwy nag un safle tiwmor.
Nid yw’r data llwybrau caeedig yn cynnwys gohiriadau clinigol ac, am y rheswm hwn, ni ellir ond cymharu’r data â data a gasglwyd yn flaenorol am yr un llwybr canser ar gyfer nifer a chanran y llwybrau cleifion sy’n dechrau triniaeth o fewn 62 diwrnod heb ohiriadau.

Mae nifer o **fesurau ehangach o’r llwybr amheuaeth o ganser** yn cael eu cyhoeddi gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru ochr yn ochr â'r datganiad ystadegol hwn er mwyn rhoi mwy o gyd-destun i weithgarwch a pherfformiad gwasanaethau canser yng Nghymru.


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-ionawr-chwefror-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Gweithgaredd

### Siart 13: Llwybrau amheuaeth o ganser a gaewyd yn y mis, yn ôl mis a chanlyniad, Mehefin 2019 i Ionawr 2022




Ffynhonnell: Lwybr Canser a Amheuir, Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW) ac Adnodd Data Cenedlaethol (NDR)

### Llwybr amheuaeth o ganser (llwybrau wedi'u cau) ar StatsCymru

Cyn pandemig COVID-19, ac o'r adeg y cafodd data'r llwybr amheuaeth o ganser ei gasglu am y tro cyntaf ym mis Mehefin 2019, roedd ychydig o dan 1,500 o lwybrau cleifion ar gyfartaledd yn dechrau eu triniaeth ddiffiniol gyntaf bob mis. Gostyngodd y nifer hwn ar ddechrau'r pandemig i isafbwynt o 925 ym mis Mai 2020. Mae wedi bod ar gynnydd ers hynny ac yn ystod y misoedd diwethaf mae wedi bod yn gyson â'r lefelau gweithgarwch yn y misoedd cyfatebol yn 2019 neu'n uwch na hynny .


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-ionawr-chwefror-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Ym mis Ionawr 2022, dechreuodd 1,492 o lwybrau lle'r oedd cleifion newydd gael diagnosis o ganser ar eu triniaeth ddiffiniol gyntaf yn ystod y mis. Mae hyn yn ostyngiad o 4.0% o fis Rhagfyr 2021 ac yn gynnydd bach o 0.3% o fis Ionawr 2021.

Cafodd 11,590 o lwybrau eu cau ar ôl i gleifion gael gwybod nad oedd canser arnynt. Mae hyn yn gynnydd o 8.1% o'i gymharu â mis Rhagfyr 2021.

Ym mis Ionawr 2022, agorwyd 13,480 o lwybrau cleifion yn dilyn amheuaeth newydd o ganser. Roedd hyn yn gynnydd o 1,643 (13.9%) o'i gymharu â'r mis blaenorol.

## Perfformiad

### Targed


- Dylai o leiaf 75% o gleifion ddechrau cael triniaeth o fewn 62 diwrnod (heb ohiriadau) ar ôl i'r amheuaeth o ganser godi am y tro cyntaf. Nid yw'r targed yn berthnasol i ddata a gyhoeddwyd ar gyfer cyfnodau amser cyn Rhagfyr 2020.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-ionawr-chwefror-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Siart 14: Canran y llwybrau lle dechreuodd y claf ar ei driniaeth ddiffiniol gyntaf o fewn yr amser targed, Ionawr 2020 i Ionawr 2022




Ffynhonnell: Lwybr Canser a Amheuir, Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW) ac Adnodd Data Cenedlaethol (NDR)

## Llwybr amheuaeth o ganser (llwybrau a gaewyd) ar StatsCymru

Roedd canran y llwybrau lle'r oedd y claf wedi dechrau triniaeth o fewn 62 diwrnod ar ôl i'r amheuaeth o ganser godi am y tro cyntaf wedi gwella rhywfaint yn ystod ychydig fisoedd cyntaf y pandemig, gan gyrraedd uchafbwynt ym mis Gorffennaf 2020, pan oedd llai o gleifion yn ymuno â'r llwybr amheuaeth o ganser.

Ym mis Ionawr 2022, roedd 53.0% o'r llwybrau (791 allan o 1,492) wedi dechrau eu triniaeth ddiffiniol gyntaf o fewn 62 diwrnod ar ôl i'r amheuaeth o ganser godi am y tro cyntaf. Dyma oedd y ffigur isaf ar gofnod ers dechrau casglu data cymaradwy ym mis Mehefin 2019. Roedd hyn 5.6 pwynt canran yn is nag ym

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-ionawr-chwefror-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

mis Rhagfyr 2021 ac 8.9 pwynt canran yn is nag ym mis Ionawr 2021.

# Gwybodaeth allweddol am ansawdd

## Amseroedd ymateb ambiwlansys

Yn ystod pandemig COVID-19, mae staff ymateb i argyfwng wedi gorfod gwisgo cyfarpar diogelu personol ychwanegol a fydd yn effeithio ar ba mor gyflym maent yn gallu ymateb i alwad. Ar ben hynny, ar ôl i ambiwlans gael ei anfon i'r fan a'r lle, rhaid iddo wedyn fynd drwy brosesau glanhau ychwanegol i atal y feirws rhag lledaenu. Mae hyn yn golygu bod y cerbyd yn cael ei dynnu oddi ar y ffordd am gyfnod a gallai hyn hefyd effeithio ar amseroedd ymateb yn ystod y cyfnod hwn.

Cafodd y **model ymateb clinigol** ar gyfer gwasanaethau ambiwlans ei gyflwyno yng Nghymru ar 1 Hydref 2015. Deuddeg mis oedd hyd y treial ar y cychwyn ond cafodd ei ymestyn am chwe mis arall. Ond, ar ôl cael adroddiad arfarnu annibynnol a gomisiynwyd gan y Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys, rhoddwyd y model ymateb clinigol ar waith (mis Chwefror 2017). Gweler yr **adroddiad ansawdd** canlynol i gael rhagor o fanylion.

Mae tri chategori galwadau cyffredinol

1. Coch: Lle mae bywyd rhywun yn y fantol (mae rhywun mewn perygl o farw'n gyflym, fel ataliad ar y galon).
2. Ambr: Difrifol, ond nid yw bywyd rhywun yn y fantol (cleifion fydd yn aml yn gorfod cael triniaeth yn y fan a'r lle, ac yna'n gorfod mynd i'r ysbyty).
3. Gwyrdd: Heb fod yn frys (yn aml, bydd gwasanaethau iechyd eraill ac asesiad clinigol dros y ffôn yn gallu rheoli'r achosion hyn).

Mae categori galwad yn cael ei bennu ar sail yr wybodaeth a roddir gan y galwr yn ei ymatebion i set o gwestiynau wedi'u sgriptio, sydd yna'n cael eu brysbennu'n awtomatig gan y system Danfon yn ôl Blaenoriaeth Feddygol (MPDS). Rhoddir hyd at ddau funud i'r rheini sy'n cymryd yr alwad adnabod natur cyflwr y claf a pha mor ddifrifol ydyw (ar gyfer y galwadau hynny lle nad yw

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-ionawr-chwefror-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

bywyd yn y fantol). Bydd ambiwlans neu adnodd priodol arall yn cael ei ddanfon cyn gynted ag y bydd y cyflwr a'i ddifrifoldeb wedi'i bennu. Gyda galwadau hynod ddwys, gall hyn fod tra mae'r galwr yn dal ar y ffôn. Mae dau achlysur lle mae modd newid blaenoriaeth galwad; pan fydd gwybodaeth newydd gan y galwr yn cael ei hasesu drwy'r system MPDS, neu pan fydd nyrs neu barafeddyg wedi casglu rhagor o wybodaeth am gyflwr y claf dros y ffôn.

At ddibenion y targed 8 munud, mae'r cloc yn dechrau pan fydd lleoliad y claf a'r brif gŵyn wedi'u sefydlu.

Fel rhan o'r adolygiad parhaus o'r model ymateb clinigol, mae Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru yn adolygu arferion delio â galwadau a chategoreiddio digwyddiadau yn rheolaidd. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid bod yn ofalus wrth ddadansoddi nifer y galwadau fesul categori dros amser.

Mae addasu'r arferion delio â galwadau ym mis Mai 2019 wedi arwain at gynnydd yn nifer y galwadau coch. Priodolir hyn yn bennaf i symud galwadau o ambr i goch lle mai natur yr alwad oedd Confylsiynau/Cael ffitiau (Cod 12). Rhoddwyd y newid hwn ar waith drwy grŵp Blaenoriaethu Clinigol Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru o ganlyniad i ddau ddatblygiad. Y cyntaf oedd ymarfer lefelu gyda'r Academi Genedlaethol ar gyfer Negeseuon Meddygol Brys, a oedd yn nodi nad oedd anadlu aneffeithiol yn cael ei ganfod yn ystod y cam pan oedd yr achos yn cael ei dderbyn. Arweiniodd hyn at newid y cwestiynau a ofynnir gan y sawl sy'n derbyn yr alwad, a newid y cod danfon a ddefnyddir. Yn ail, argymhelliad gan y crwner y dylai galwr sy'n cael ffitiau'n barhaus neu sawl ffit am 20 munud, gael ei uwchgyfeirio'n awtomatig i goch.

Felly, nid yw'n bosibl cymharu niferoedd digwyddiadau coch yn deg cyn hyn. Gallai cynnydd yn nifer y digwyddiadau coch hefyd effeithio ar berfformiad oherwydd yr adnoddau ychwanegol sydd eu hangen i fynd i ddigwyddiad coch.

Diwygiadau: Mae unrhyw ddiwygiadau i'r data yn cael eu nodi yn y 'Nodiadau ar gyfer cyhoeddiad y mis hwn' ac yn yr wybodaeth sy'n cyd-fynd â chiwbiau StatsCymru bob mis.

## Gwasanaethau Ambiwlans: StatsCymru

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-ionawr-chwefror-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Adrannau achosion brys

Mae'r term 'adran achosion brys' yn cynnwys gweithgarwch mewn adrannau damweiniau ac achosion brys mawr, adrannau damweiniau ac achosion brys eraill ac unedau mân anafiadau.

Sylwer bod nifer y derbyniadau i'r ysbyty yn seiliedig ar ymweliadau ag adrannau achosion brys mawr yn unig yng Nghymru. Y rheswm am hyn yw nad yw derbyniadau i'r ysbyty o fynychu unedau mân anafiadau yn cael eu cofnodi'n gyson ledled Cymru.

Ar 17 Tachwedd 2020, agorwyd Ysbyty Athrofaol y Faenor, gydag adran achosion brys fawr, ym mwrdd iechyd Aneurin Bevan. Mae Ysbyty Athrofaol y Faenor yn darparu llu o wasanaethau arbenigol mewn un lle, gan gynnwys adran achosion brys 24 awr ac uned asesu ar gyfer argyfyngau mawr a dadebru lle gallai fod angen gofal dwys pellach.

Yn y data sy'n cyfeirio at fis Rhagfyr 2020 ymlaen, mae Ysbyty Brenhinol Gwent ac Ysbyty Nevill Hall wedi cael eu hailddosbarthu'n "Adran achosion brys arall/ Unedau Mân Anafiadau – Adran achosion brys arall/Unedau Mân Anafiadau", yn dilyn agor ysbyty Athrofaol y Faenor. Diffinnir y categori hwn o ysbytai fel yr holl adrannau achosion brys eraill/unedau mân anafiadau sydd â lle dynodedig ar gyfer derbyn cleifion damweiniau ac achosion brys, y gellir cael mynediad iddynt fel mater o drefn heb apwyntiad, ond nad ydynt yn bodloni'r meini prawf ar gyfer adran achosion brys fawr. Mae hyn hefyd yn golygu na fydd ystadegau ar gyfer derbyniadau o adrannau achosion brys mawr yn cynnwys derbyniadau yn sgil ymweld ag Ysbyty Brenhinol Gwent nac Ysbyty Nevill Hall yn y data o fis Rhagfyr 2020 ymlaen.

Diffinnir adrannau achosion brys mawr fel gwasanaeth o dan arweiniad meddygon ymgynghorol sydd â chyfleusterau dadebru a lle ar gyfer derbyn cleifion o adran achosion brys. Rhaid i adrannau achosion brys mawr ddarparu gwasanaethau dadebru, asesu a thrin salwch acíwt ac anafiadau i gleifion o bob oed, a rhaid i wasanaethau fod ar gael 24 awr y dydd yn ddi-dor.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-ionawr-chwefror-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Ers 5 Awst 2020 mae’r gwasanaeth CAV24/7 wedi bod ar waith ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a’r Fro, sy’n effeithio ar sut mae gwasanaethau’n cael eu darparu yn ei adrannau achosion brys. Mae’r model ‘Ffonio’n Gyntaf’ yn annog cleifion i ffonio ymlaen llaw i gael eu brysbennu os oes angen dybryd arnynt i fynd i adran achosion brys ond nad oes ganddynt gyflwr lle mae eu bywyd yn y fantol ar y pryd. Yn dibynnu ar ddifrifoldeb y cyflwr, efallai y cânt eu hannog i hunan-ofalu; eu cyfeirio at wasanaeth mwy priodol yn eu cymuned leol; neu gellir archebu slot amser yn uniongyrchol iddynt mewn adran achosion brys os oes angen asesiad a thriniaeth bellach arnynt.

Mae byrddau iechyd eraill yn gweithio tuag at gyflwyno gwasanaethau tebyg ond nid ydynt wedi rhoi dim byd ar waith eto.

O ran mesur faint o amser y mae claf yn aros, nid yw amser dechrau’r cloc wedi newid: mae’r amser yn dechrau pan fydd y claf yn cyrraedd yr adran achosion brys yn bersonol. Er bod y gwasanaeth yn ei ddyddiau cynnar, cynhelir profion dilysu ychwanegol ar ddata Caerdydd a’r Fro i asesu effaith y newidiadau. Hyd yma, nid yw lefel y gweithgarwch na’r perfformiad yn erbyn y ddau darged ar gyfer adrannau achosion brys wedi newid rhyw lawer ers cyflwyno’r gwasanaeth.

Ochr yn ochr â’r Ystadegau Gwladol hyn, mae tri mesur newydd wedi cael eu datblygu fel rhan o raglen Fframwaith Cyflawni Ansawdd Adrannau Achosion Brys (EDQDF). Mae’r fframwaith hwn wedi datblygu amrywiaeth ehangach o fesurau, er mwyn rhoi mwy o gyd-destun i ddarparu gofal mewn adrannau achosion brys. Bydd y rhain yn cynnwys mesur yr amser rhwng y claf yn cyrraedd a chael ei frysbennu, yr amser rhwng y claf yn cyrraedd a chael cysylltiad â gwneuthurwr penderfyniadau clinigol, a dadansoddiad o ble fydd y claf yn mynd ar ôl gadael yr adran achosion brys.

Wrth i’r setiau data a’r prosesau casglu data ar gyfer y mesurau gael eu datblygu, byddant yn cael eu cyhoeddi fel gwybodaeth reoli ar wefan yr **Uned Comisiynu Cydweithredol Cenedlaethol** (NCCU) ar yr un diwrnod â’r cyhoeddiad hwn. Os yw’r data’n gadarn ac yn bodloni gofynion y Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi’r rhain ochr yn ochr â’n hystadegau swyddogol, gyda statws ystadegau arbrofol yn y lle cyntaf.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-ionawr-chwefror-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

O fis Mawrth 2021 ymlaen, mae newidiadau wedi cael eu gwneud i fethodoleg echdynnu data'r Uned Comisiynu Cydweithredol Cenedlaethol. Mae hyn yn golygu y bydd y ffigurau ar gyfer nifer yr ymweliadau ag adrannau achosion brys mawr yn cyfateb i'r rhai a gyhoeddwyd yn y cyhoeddiad hwn gan yr Ystadegau Gwladol. Mae ffigurau a gyhoeddwyd gan yr Uned Comisiynu Cydweithredol Cenedlaethol ar gyfer misoedd blaenorol hefyd wedi cael eu diwygio ar sail eu methodoleg newydd.

Iechyd a Gofal Digidol Cymru sy'n darparu'r data o Set Ddata Adran Achosion Brys (EDDS). Dyma ffynhonnell lawn o ddata lefel cleifion ar dderbyniadau i gyfleusterau gofal mewn argyfwng yng Nghymru ac mae'n cael ei defnyddio'n bennaf ar gyfer targedau perfformiad.

Targedau: Amser a dreulir mewn adrannau achosion brys:

- Dylai 95% o gleifion newydd dreulio llai na 4 awr mewn adrannau achosion brys o'r eiliad iddynt gyrraedd nes iddynt gael eu derbyn, eu trosglwyddo neu eu rhyddhau.
- Ni ddylai'r un claf orfod aros mwy na 12 awr mewn adrannau achosion brys o'r eiliad iddynt gyrraedd nes iddynt gael eu derbyn, eu trosglwyddo neu eu rhyddhau.

Diwygiadau: Mae rhai ffigurau'n debygol o gael eu diwygio yn y misoedd i ddod. Mae pob cyflwyniad gan fyrddau iechyd yn cynnwys data am hyd at y 12 mis diwethaf. Gall hyn gynnwys mân ddiwygiadau i gyfnodau a gyhoeddwyd yn flaenorol. Bydd y data diwygiedig yn cael eu cyhoeddi ar StatsCymru gyda'r mis diweddaraf. Bydd troednodiadau'n cael eu cynnwys am unrhyw ddiwygiadau sylweddol a byddant yn cael eu crybwyll yn y datganiad ystadegau.

Arweiniodd newid i ganllawiau adrodd at fyrddau iechyd yn rhoi hysbysiad newid safon data ar waith mewn ffordd anghyson yng Nghymru rhwng mis Mawrth 2021 a mis Hydref 2021. O ganlyniad, nid oedd y data a gyhoeddwyd, cyn datganiad ystadegol mis Rhagfyr 2021, ar gyfer y targedau 4 awr a 12 awr, ar gyfer y misoedd hyn, yn seiliedig ar ddiffiniad cyson o'r 'cloc yn stopio' ar draws Cymru. O fis Rhagfyr 2021 ymlaen, mae'r data hyn wedi cael eu diwygio ac mae data ar gyfer pob bwrdd iechyd bellach yn cael eu cyhoeddi gan ddefnyddio'r un diffiniad o'r 'cloc yn stopio'.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-ionawr-chwefror-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Roedd y diwygiadau'n seiliedig yn bennaf ar ddata a ailgyflwynwyd gan fwrdd iechyd Aneurin Bevan. Roedd y newidiadau i'r data a gyhoeddwyd yn flaenorol ar lefel genedlaethol ac ar lefel bwrdd iechyd Aneurin Bevan.

Nid effeithiwyd ar nifer yr ymweliadau ag adrannau achosion brys.

Cymaroldeb a chydlyniad: Mae'r ffigurau ar gyfer Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn Ystadegau Gwladol. Mae pedair gwlad y DU yn cyhoeddi gwybodaeth am yr amser a dreulir mewn adrannau achosion brys/Damweiniau ac Achosion Brys, er bod hyn yn gallu cael ei labelu o dan Adran Frys (fel yn yr Alban) neu Ofal mewn Argyfwng (fel yng Ngogledd Iwerddon). Nid oes modd cymharu'r ystadegau a gyhoeddir yn llwyr oherwydd: eu bod wedi cael eu cynllunio i fonitro targedau a ddatblygwyd ar wahân ym mhob gwlad; bod y ddarpariaeth a'r drefn categoreiddio gwasanaethau gofal heb ei drefnu yn amrywio ar draws y DU; bod y systemau sy'n casglu'r data yn wahanol.

**Amser a dreulir mewn adrannau achosion brys: StatsCymru**

**Amser a dreulir mewn adrannau achosion brys: adroddiad rhyddhau ac ansawdd**

## Atgyfeirio cleifion allanol

Diwygiadau: O fis Rhagfyr 2015 ymlaen, ein polisi diwygio yw adolygu bob 12 mis yn fisol.

Cymaroldeb a chydlyniad: Mae gwybodaeth debyg ar gael o rannau eraill o'r DU ond nid oes modd cymharu'r data yn llwyr oherwydd safonau a diffiniadau lleol ym mhob ardal. Cytunwyd ar safonau a diffiniadau data ar draws y byrddau iechyd gan sicrhau bod data'n cael eu casglu'n gyson ledled Cymru.

**Atgyfeirio cleifion allanol: StatsCymru**

**Atgyfeirio cleifion allanol: adroddiad ansawdd**

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-ionawr-chwefror-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Amseroedd Aros Gwasanaethau Diagnostig a Therapi (DATS)

Mae'r cynnydd yn nifer y llwybrau sy'n aros am wasanaethau diagnostig yn gysylltiedig yn uniongyrchol ag effaith COVID-19. **Cafodd yr holl apwyntiadau cleifion allanol nad oeddent yn rhai brys eu hatal ym mis Mawrth 2020** er mwyn blaenoriaethu triniaethau brys. Hefyd, er bod mwy o wasanaethau wedi ailddechrau, mae mesurau rheoli ac atal heintiau ychwanegol wedi'u rhoi ar waith sydd wedi effeithio ar faint o brofion diagnostig y gellir eu cyflawni.

Ar y llaw arall, mae'r ffaith fod llawer o wasanaethau therapi yn cael eu darparu ar-lein yn esbonio'n rhannol lefel is y llwybrau cleifion a oedd yn aros am therapïau ar anterth y pandemig. Mae hyn wedi arwain at fwy o gleifion yn cael apwyntiad na phe baent i gyd yn cael eu cynnal wyneb yn wyneb mewn ysbyty.

Ni wnaeth bwrdd iechyd Betsi Cadwaladr gyflwyno data therapïau ar gyfer mis Ebrill 2020. Mae hyn yn effeithio ar nifer y llwybrau cleifion sy'n aros yn ystod y mis, ac ni ddylid cymharu'r data ar gyfer y mis hwn â'r misoedd eraill, ar lefel Cymru. I roi amcangyfrif o faint yr effaith, roedd 25,501 o lwybrau yn aros yn y chwe bwrdd iechyd arall ym mis Ebrill 2020, ac yn y ddau fis y naill ochr a'r llall i fis Ebrill, roedd 7,519 o lwybrau cleifion yn aros ym mis Mawrth 2020 a 9,840 ym mis Mai 2020, yn Betsi Cadwaladr.

Bydd hyn hefyd yn effeithio ar nifer a chanran y llwybrau sy'n aros yn hwy na'r amser targed. Mae data perfformiad ar gyfer mis Ebrill 2020 yn cynrychioli dim ond y chwe bwrdd iechyd a ddarparodd ddata ar gyfer y mis hwnnw. Nid oes unrhyw ddata wedi'u hamcangyfrif ar gyfer y data sydd ar goll yn y datganiad hwn nac ar StatsCymru.

Targedau: Amseroedd aros i gael gafael ar wasanaethau diagnostig a therapi (safonau gweithredu ar gyfer amseroedd aros hiraf):

- Yr amser aros hiraf i gael profion diagnostig penodol yw 8 wythnos.
- Yr amser aros hiraf i gael gwasanaethau therapi penodol yw 14 wythnos.

Diwygiadau: Mae unrhyw ddiwygiadau i'r data yn cael eu nodi yn y 'Nodiadau ar

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-ionawr-chwefror-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

gyfer cyhoeddiad y mis hwn' ac yn yr wybodaeth sy'n cyd-fynd â chiwbiau StatsCymru bob mis.

Cymaroldeb a chydlyniad: Gweler y nodiadau ar amseroedd aros rhwng Atgyfeirio a Thriniaeth.

**Amseroedd aros Diagnostig a Therapi: StatsCymru**

**Amseroedd aros Diagnostig a Therapi: adroddiad rhyddhau ac ansawdd**

## Amseroedd aros rhwng atgyfeirio a thriniaeth

Mae'r llwybr rhwng atgyfeirio a thriniaeth (RTT) yn cynnwys yr amser a arhoswyd o gael atgyfeiriad i fynd i'r ysbyty i gael triniaeth ac mae'n cynnwys yr amser a dreulir yn aros am unrhyw apwyntiadau, profion, sganiau neu driniaethau eraill yn yr ysbyty sydd eu hangen cyn cael triniaeth. Mae diffiniadau o'r termau a ddefnyddir a'r wybodaeth am ansawdd ar gael yn yr **adroddiad ansawdd**.

Targedau: Amseroedd aros rhwng atgyfeirio a thriniaeth:

- 95% o gleifion yn aros llai na 26 wythnos rhwng atgyfeirio a thriniaeth.
- Dim cleifion yn aros mwy na 36 wythnos am driniaeth.

Nid yw Cwm Taf Morgannwg (a Chwm Taf cyn mis Ebrill 2019) wedi gallu darparu data am lwybrau sydd wedi cau ers mis Medi 2018 o ganlyniad i broblemau TG yn dilyn diweddariad meddalwedd. Felly, nid yw'r rhifau a'r cymariaethau ar gyfer llwybrau wedi'u cau o ddatganiad mis Hydref 2018 ymlaen yn cynnwys Cwm Taf Morgannwg. Mae'r data ar gyfer Cwm Taf ar gyfer y misoedd blaenorol ar gael ar StatsCymru.

Rhoddodd Cwm Taf Morgannwg wybod i Lywodraeth Cymru ddiwedd mis Mehefin 2019 eu bod yn credu bod problem gyda'r modd y caiff rhai rhestrau aros rhwng atgyfeirio a thriniaeth eu hadrodd.  Fe wnaethant ofyn i Uned Gyflawni GIG Cymru gynnal adolygiad, ac arweiniodd hyn at ychwanegu cyfanswm o 1,783 o gleifion ychwanegol at y rhestr aros RTT wrth gyhoeddi

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-ionawr-chwefror-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

data Gorffennaf 2019 ym mis Hydref 2019. Hefyd, adolygodd yr Uned Gyflawni'r rhestr aros ar gyfer triniaethau diagnostig, a chanfod y dylai 1,288 o gleifion ychwanegol fod wedi cael eu nodi. Ychwanegwyd y cleifion hyn at y ffigurau swyddogol ar gyfer diwedd Gorffennaf 2019, yr adroddwyd arnynt ym mis Hydref 2019. Er nad oedd y cleifion yn cael eu cynnwys fel rhan o'r ystadegau swyddogol, roeddent yn cael eu hadrodd yn fewnol i'r bwrdd iechyd. Mae Llywodraeth Cymru wedi cysylltu â byrddau iechyd eraill ac mae wedi cael gwybod bod adroddiadau'n cael eu darparu ar yr holl restrau aros yn unol â'r Canllawiau Atgyfeirio i dderbyn Triniaeth.

Mae triniaethau sy'n cael eu cynnal yn rhithiol yn cael eu cyfrif yr un fath â gweithgarwch wyneb yn wyneb, ac ers pandemig COVID-19, cynhaliwyd mwy o driniaethau ar-lein.

Gan fod **pob apwyntiad claf allanol nad oedd yn frys wedi eu gohirio ym mis Mawrth 2020** er mwyn blaenoriaethu apwyntiadau brys, mae amseroedd aros ar gyfer cleifion a atgyfeirir am driniaeth wedi cynyddu'n sylweddol. Hefyd, er bod mwy o wasanaethau wedi ailddechrau ers hynny, mae mesurau rheoli ac atal heintiau ychwanegol wedi'u rhoi ar waith sydd wedi effeithio ar faint o driniaethau y gellir eu gwneud.

Ar hyn o bryd, mae clinigwyr yn adolygu cleifion sydd ar restrau aros ar wahanol gamau i nodi blaenoriaethau clinigol gan ddefnyddio'r canllawiau clinigol cenedlaethol diweddaraf **Federation of Surgical Specialty Associations – COVID-19 documents clinical prioritisation**. Mae hyn yn golygu bod mwy o bwyslais ar drin cleifion yn nhrefn blaenoriaeth glinigol, a gall arwain at gleifion â blaenoriaeth glinigol is yn aros yn hwy. Er bod elfen o flaenoriaeth glinigol wedi bod erioed, roedd y capasiti a oedd ar gael cyn pandemig COVID-19 yn caniatáu i gleifion a oedd wedi gorfod aros yn hwy gael eu trin yn gynt. Fodd bynnag, ers pandemig COVID-19, mae'r capasiti sydd ar gael wedi lleihau'n sylweddol.

Er bod rhestrau aros atgyfeirio am driniaeth yn dal yn weithredol, nid yw'r byrddau iechyd lleol wedi gallu gwneud cymaint o waith dilysu ar ddata rhestrau aros gan fod eu hadnoddau yn gorfod canolbwyntio hefyd ar gefnogi'r ffyrdd newydd o weithio. Dylid bod yn ofalus wrth gymharu ystadegau perfformiad o fis Mawrth 2020 ymlaen â misoedd blaenorol oherwydd y newidiadau hyn.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-ionawr-chwefror-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Mae'r data a gasglwyd yn flaenorol drwy'r trefniant casglu data PP01W ar gyfer arbenigeddau triniaeth nad ydynt wedi'u cynnwys yn RTT sydd wedi bodoli ers tro, wedi dod i ben erbyn hyn yn dilyn asesiad effaith.

Diwygiadau: Mae unrhyw ddiwygiadau i'r data yn cael eu nodi yn y 'Nodiadau ar gyfer cyhoeddiad y mis hwn' ac yn yr wybodaeth sy'n cyd-fynd â chiwbiau StatsCymru bob mis.

Cymaroldeb a chydlyniad: Mae Cymru, Lloegr a'r Alban yn cyhoeddi amseroedd aros rhwng atgyfeirio a thriniaeth sy'n mesur llwybr cyflawn y claf o'r atgyfeiriad cychwynnol ee, gan feddyg teulu, hyd at gael ei ryddhau neu at gael triniaeth y cytunir arni, yn ogystal â chamau penodol yn yr amseroedd aros am driniaeth. Mae Gogledd Iwerddon yn cyhoeddi ystadegau amseroedd aros ar gyfer cleifion mewnol, cleifion allanol a chamau diagnostig ar gyfer triniaeth sy'n mesur amseroedd aros ar gyfer y gwahanol gamau yn llwybr y claf, fel arfer yr amser aros penodol ar gyfer triniaeth i gleifion mewnol, triniaeth ddiagnostig neu driniaeth i gleifion allanol, neu ar gyfer gwasanaethau penodol fel awdioleg.

I sicrhau mwy o gysondeb ar draws data'r byrddau iechyd, mae'r holl godau triniaeth newydd wedi'u newid i'r hyn oedd yn cyfateb iddynt cyn mis Ebrill 2016. Mae hyn nawr wedi'i weithredu ar gyfer pob data atgyfeirio a data atgyfeirio i driniaeth a roddwyd yn y gorffennol. Caiff hyn ei roi ar waith nes y bydd pob bwrdd iechyd yn gallu darparu adroddiadau gan ddefnyddio'r codau newydd yn gyson. I gael rhagor o wybodaeth, darllenwch yr **Hysbysiad Newid Set Data (2014/08)**.

O ran yr amseroedd aros rhwng atgyfeirio a thriniaeth, er bod y cysyniadau yn debyg yng Nghymru, Lloegr a'r Alban o ran mesur yr amseroedd aros rhwng yr amser y bydd yr ysbyty yn cael yr atgyfeiriad a dechrau'r driniaeth, a'r mathau o lwybrau cleifion sy'n cael eu cynnwys, mae gwahaniaethau amlwg yn y rheolau unigol ynghylch mesur amseroedd aros. Mae hyn yn arbennig o bwysig pan fydd 'y cloc yn stopio neu'n oedi', gydag eithriadau, a'r arbenigeddau sy'n cael eu cynnwys.

**Amser rhwng atgyfeirio a thriniaeth: StatsCymru**

**Amser rhwng atgyfeirio a thriniaeth: adroddiad rhyddhau ac ansawdd**

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-ionawr-chwefror-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Gwasanaethau Canser

Mae cleifion canser yn cael eu trin yn ôl brys clinigol yn hytrach na chyfnod aros. Mae COVID-19 wedi effeithio ar sut darperir gwasanaethau canser. Mae angen i fyrddau iechyd addasu drwy amrywiol ddulliau, gan gynnwys rhoi mesurau rheoli ac atal heintiau ychwanegol ar waith i sicrhau eu bod yn darparu gwasanaethau diogel ac yn lleihau'r risg y bydd cleifion yn dal COVID-19. Mae hyn wedi golygu bod gwasanaethau wedi bod yn gweithredu ar lai o gapasiti.

Mae'n debyg hefyd y bydd nifer y llwybrau cleifion yn dechrau triniaeth o fewn yr amser targed yn cael ei effeithio yn y misoedd pan oedd rhai cleifion yn gwarchod eu hunain a phan oedd y pandemig yn effeithio ar ddewisiadau cleifion.

## Y llwybr amheuaeth o ganser

**Targed y llwybr amheuaeth o ganser** yw: Dylai o leiaf 75% o gleifion ddechrau ar eu triniaeth ddiffiniol gyntaf o fewn 62 diwrnod (heb ohiriadau) ar ôl i'r amheuaeth o ganser godi am y tro cyntaf. Daeth y targed hwn i rym ar 1 Rhagfyr 2020.

Cyn y dyddiad hwn, roedd targedau ar gyfer llwybrau canser brys a heb fod yn frys, nad ydynt yn weithredol mwyach, felly ni fydd data newydd yn cael ei gasglu na'i gyhoeddi ar gyfer y llwybrau hyn. Rhwng mis Mehefin 2019 a mis Tachwedd 2020, cyflwynwyd mesur newydd o'r enw'r llwybr unigol ar gyfer canser a gafodd ei gefnogi gan ddata arbrofol a gasglwyd gan Lywodraeth Cymru yn uniongyrchol gan fyrddau iechyd drwy gasglu data cyfanredol. Cafodd data arbrofol ar gyfer mesurau llwybrau caeedig eu cyhoeddi gydag a heb ohiriadau clinigol. Ar ôl i'r llwybr unigol ar gyfer canser gymryd lle'r llwybrau brys a'r llwybrau nad ydynt yn rhai brys fel y mesur swyddogol o wasanaethau canser yng Nghymru, penderfynwyd na ddylid rhoi gwybod am unrhyw ohiriadau clinigol a chafodd y llwybr ei ailenwi'n llwybr amheuaeth o ganser.

Mae'r llwybr amheuaeth o ganser yn cael ei gefnogi gan broses casglu data newydd. Mae'r data nawr yn cael ei gasglu drwy'r Adnodd Data Cenedlaethol,

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-ionawr-chwefror-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

sy'n cael ei gynnal gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru. Cyhoeddir data o'r ffynhonnell hon am gyfnod atgyfeirio mis Rhagfyr 2020 ar gyfer pob mesur llwybr caeedig (nifer y bobl y dywedir wrthyn nad oes canser arnynt, nifer y bobl sy'n dechrau eu triniaeth ddiffiniol gyntaf, a'r nifer sy'n dechrau eu triniaeth ddiffiniol gyntaf o fewn yr amser targed). Mae data yn cael ei gyhoeddi hefyd o'r ffynhonnell hon ar gyfer y mesur llwybr agored, nifer y llwybrau cleifion a agorwyd o fis Rhagfyr 2021 ymlaen.

Cyn y dyddiadau hyn, roedd data canser yn ymwneud â'r llwybrau brys a'r llwybrau nad ydynt yn rhai brys, a chawsant eu casglu gan Lywodraeth Cymru drwy ffurflenni casglu data cyfanredol a'u cyhoeddi yn y datganiad hwn. Daeth y gwaith o gasglu data drwy'r dull hwn i ben ar gyfer llwybrau wedi'u cau ar ôl i'r llwybrau brys a'r llwybrau nad ydynt yn rhai brys ddod i ben ym mis Tachwedd 2020. Roedd y data ar gyfer llwybrau agored wedi parhau ac wedi cael ei gyhoeddi hyd at gyfnod atgyfeirio mis Tachwedd 2021, ac roedd data llwybrau agored o'r NDR yn cael ei ddatblygu.

Mae data agored a chaeedig ar y llwybr amheuaeth o ganser a gasglwyd drwy'r broses NDR yn cael ei gyhoeddi fel data agored ar **StatsCymru**. Mae data llwybrau agored hanesyddol a gasglwyd drwy ffurflenni casglu data cyfanredol ar gael mewn taenlenni ar **StatsCymru**, ac mae data hanesyddol ar lwybrau caeedig hefyd yn cael ei gyhoeddi ar **StatsCymru**.

Er bod data llwybrau agored a gasglwyd drwy'r dull NDR yn eithaf tebyg i'r dull data cyfanredol blaenorol, ni ddylid cymharu'n uniongyrchol rhwng y ddwy ffynhonnell oherwydd gwyddom fod y dull blaenorol yn cynnwys llawer o lwybrau dyblyg. Mae hyn yn golygu na ddylai nifer y llwybrau a agorwyd mewn misoedd cyn mis Rhagfyr 2021 gael ei gymharu'n uniongyrchol â data o fis Rhagfyr 2021 ymlaen.

Nid yw data llwybrau caeedig a gasglwyd drwy'r NDR o fis Rhagfyr 2020 ymlaen yn cynnwys gohiriadau clinigol. Am y rheswm hwn, ni ellir ond cymharu'r data â data a gasglwyd yn flaenorol am yr un llwybr canser ar gyfer nifer a chanran y llwybrau cleifion sy'n dechrau triniaeth o fewn 62 diwrnod heb ohiriadau.

Mae data'r llwybr caeedig a gyflwynir yn y datganiad ystadegol hwn yn cynnwys dim ond y llwybrau cleifion sy'n dechrau eu triniaeth ddiffiniol gyntaf neu sy'n

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-ionawr-chwefror-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

cael gwybod nad oes canser arnynt (wedi'u hisraddio). Nid yw'r data'n cynnwys llwybrau lle mae'r claf yn dewis peidio â chael triniaeth neu lwybrau lle mae'r claf yn marw cyn dechrau ei driniaeth ddiffiniol gyntaf (ni waeth a oes diagnosis positif neu negyddol o ganser).

Mae data ar gyfer nifer y llwybrau cleifion a agorwyd ar y llwybr amheuaeth o ganser yn cael eu cyhoeddi fesul bwrdd iechyd lleol, safle'r tiwmor a'r mis. Mae gwaith yn mynd rhagddo i sicrhau bod y data ar gael yn ôl ffynhonnell yr atgyfeiriad a bydd yn cael ei ychwanegu at dabl **StatsCymru** yn y misoedd nesaf.

Mae pob llwybr cleifion newydd yn cael ei gynnwys mewn mesurau llwybrau agored, ni waeth beth yw eu llwybrau atgyfeirio. Mae hyn yn cynnwys llwybrau cleifion a oedd wedi'u hatgyfeirio i gael gofal eilaidd yng Nghymru ond a allai gael triniaeth y tu allan i GIG Cymru (mewn gwlad wahanol ac ysbytai preifat), ond nid yw'n cynnwys llwybrau cleifion lle mae'r canser cychwynnol gwreiddiol yn dychwelyd.

Wrth sicrhau ansawdd data llwybrau agored ar gyfer mis Hydref, mis Tachwedd a mis Rhagfyr 2021, amcangyfrifwyd bod nifer y llwybrau a agorwyd tua 2-3% yn uwch na nifer y cleifion unigryw yr amheuir bod canser arnynt.

I gael rhagor o wybodaeth am y llwybr amheuaeth, trowch at yr **Hysbysiad Newid Set Data** a'r **dogfennau allweddol**.

Ochr yn ochr â'r cam at adrodd yn unig ar y llwybr amheuaeth o ganser, mae amrywiaeth o fesurau perfformiad cyd-destunol ehangach wedi cael eu cyhoeddi gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru. Mae'r dangosfwrdd yn cael ei ddatblygu'n barhaus a bydd yn anelu at gynnwys dadansoddiad o'r canlynol: canolrif yr amser i apwyntiad cyntaf, canolrif yr amser i roi gwybod i gleifion am ddiagnosis positif o ganser, a chanolrif y nifer o ddiwrnodau i brawf diagnostig cyntaf claf, a hynny pan fydd y data o ansawdd digonol. Cyflwynir dadansoddiad yn ôl grŵp oedran a rhyw hefyd. Cyhoeddir y data hyn gyda statws ystadegau arbrofol hefyd.

Diwygiadau: Mae unrhyw ddiwygiadau i'r data yn cael eu nodi yn y 'Nodiadau ar gyfer cyhoeddiad y mis hwn' ac yn yr wybodaeth sy'n cyd-fynd â setiau data

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-ionawr-chwefror-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

StatsCymru bob mis.

Cymaroldeb a chydlyniad: Mae gwledydd eraill y DU yn mesur amseroedd aros canser hefyd. Ond, mae'r allbynnau'n wahanol mewn gwahanol wledydd oherwydd eu bod wedi cael eu cynllunio i helpu i fonitro polisïau a ddatblygwyd ar wahân gan bob llywodraeth. Byddai angen ymchwilio ymhellach i weld a yw'r gwahaniaethau diffiniol yn cael effaith arwyddocaol ar gymaroldeb y data.

Cyhoeddir dadansoddiad manwl o amseroedd aros canser hanesyddol hefyd mewn **datganiad ystadegol blynyddol**.

Yn hanesyddol, nid oedd data Powys ar gyfer y cleifion hynny oedd wedi ymuno â'r llwybr ond yn dangos cleifion a gafodd eu hisraddio'n ddiweddarach fel rhai nad oedd canser arnynt, a bydd hyn yn parhau yng nghyswllt y casgliad ar gyfer y llwybr amheuaeth o ganser.

## Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed Arbenigol (sCAMHS)

O 16 Mehefin 2021 ymlaen, mae data sy'n ymwneud â Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed Arbenigol (sCAMHS) wedi cael eu cyhoeddi ochr yn ochr â **data iechyd meddwl eraill** fel tablau data agored StatsCymru.

## Data rhyddhau o ysbyty: oedi yn y llwybr rhyddhau cleifion o'r ysbyty / Oedi wrth drosglwyddo gofal (DoC)

Ar ddechrau pandemig COVID-19, ataliodd Llywodraeth Cymru y gofynion adrodd ar oedi wrth drosglwyddo gofal, ynghyd â nifer o setiau data eraill. Yn y cyfamser, cyflwynodd Llywodraeth Cymru **Ofynion Rhyddhau COVID-19** a oedd yn cynnwys proses ryddhau wedi'i diweddaru, sy'n rhoi mwy o bwyslais ar adsefydlu ac ailalluogi er mwyn gwella llif cleifion a sicrhau gwell canlyniadau.

Mae Uned Gyflawni'r GIG wedi bod yn casglu data interim wythnosol am oedi cyn rhyddhau er mwyn darparu gwybodaeth reoli i gefnogi'r trefniadau newydd i Lywodraeth Cymru. Nid yw'r data hyn yn mesur oedi wrth drosglwyddo gofal yn

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-ionawr-chwefror-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

yr un ffordd â’r data a gasglwyd yn flaenorol, ac nid ydynt wedi cael eu hasesu yn erbyn safonau’r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau ac fe’i cyhoeddir fel gwybodaeth reoli.

Mae data o’r casgliad interim hwn wedi cael eu cyhoeddi ochr yn ochr â’r datganiad ystadegol hwn am y tro cyntaf mewn taenlenni cysylltiedig, ac mae gwaith i ailddatblygu’r broses o gasglu data am Oedi wrth drosglwyddo gofal, yn ffurfiol, yn mynd rhagddo. Mae cyhoeddi data rheoli am y tro cyntaf yn cynnwys y cyfnod rhwng dechrau mis Gorffennaf 2020 a diwedd mis Hydref 2021, ar lefel Cymru, a bydd yn cynnwys data sy’n ymwneud â thri math o oedi (pobl sy’n aros i gael eu trosglwyddo o’r ysbyty i lwybrau adfer, pobl sy’n aros i gael eu trosglwyddo o lwybrau adfer ac ymlaen i ofal tymor hwy a phobl sy’n aros i gael eu trosglwyddo o’r ysbyty i ofal tymor hwy, gan osgoi llwybrau adfer).

## Ffynonellau

Mae data ymateb ambiwlansys yn cael eu darparu gan Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru.

Mae'r holl ddata arall sydd wedi’u crynhoi yma yn cael eu casglu oddi wrth fyrddau iechyd lleol gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru. Mae manylion llawn ar gael yn yr Adroddiadau Ansawdd ar gyfer pob maes gwasanaeth.

## Yr amserlen

Wrth i ni gyhoeddi ein datganiadau misol ar berfformiad a gweithgarwch y GIG ar yr un diwrnod, bydd y defnyddwyr yn cael darlun mwy cyflawn ac integredig o weithgarwch, gan roi golwg gyffredinol fwy cydlynol ar y GIG yng Nghymru.

Nid oes gan bob set ddata yr un amserlenni ar gyfer prosesu. I sicrhau bod y data ar gael gynted ag y bo modd, rydym yn cyhoeddi data gofal heb ei drefnu ar gyfer mis Hydref, dyweder, gyda’r data gofal wedi'i gynllunio ar gyfer mis Medi.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-ionawr-chwefror-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Data

Adnodd ar-lein - mae adnodd rhyngweithiol ar-lein wedi'i ddatblygu, ac mae ganddo dair rhan:

1. Galw/Gweithgarwch: ee presenoldeb mewn adrannau achosion brys, galwadau ambiwlansys, atgyfeiriadau
2. Perfformiad: ee perfformiad yn erbyn targedau adrannau achosion brys, amseroedd rhwng atgyfeirio a thriniaeth, ac ati
3. Cyd-destun: ee canolrif amser mewn adrannau achosion brys, canolrif amseroedd ymateb ambiwlansys, canolrif amseroedd aros rhwng atgyfeirio a thriniaeth

Mae pob siart yn dangos y cyfnod diweddaraf o bum mlynedd, os oes data wedi'u casglu mewn ffordd y gellir eu cymharu'n deg dros y cyfnod hwnnw. Yr eithriad i hyn yw'r siartiau perfformiad a gweithgarwch ambiwlansys, lle mae'n ymddangos bod diweddaru arferion delio â galwadau ym mis Mai 2019 wedi arwain at newid yn nifer y digwyddiadau coch. Felly, nid yw'n bosibl cymharu niferoedd digwyddiadau coch cyn hyn.

Mae modd gweld, defnyddio neu lwytho rhagor o setiau data manwl i lawr drwy ein API data agored ar **StatsCymru**.

Cyfrifir newidiadau pwynt canran gan ddefnyddio ffigurau heb eu talgrynnu.

## Gwybodaeth gyd-destunol

Mae'r siartiau yn yr adnodd ar-lein yn darparu gwybodaeth ychwanegol am weithgarwch sy'n ategu'r wybodaeth am berfformiad y GIG a ddangosir uchod.

Mae rhai siartiau'n cynnwys amseroedd canolrif a chymedr. Er enghraifft, mewn perthynas ag amseroedd ymateb ambiwlansys:

- Canolrif yr amser ymateb yw'r amser canol pan fydd yr holl ymatebion i argyfwng yn cael eu rhoi mewn trefn o'r cyflymaf i'r arafaf, felly bydd hanner

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-ionawr-chwefror-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

yr holl ymatebion i argyfwng yn cyrraedd o fewn yr amser hwn. Mae hyn yn cael ei ddefnyddio yn lle’r cymedr fel arfer gan ei fod yn llai tebygol na'r cymedr o arwain at werthoedd eithaf.
- Cymedr yr amser ymateb yw cyfanswm yr amser ar gyfer pob ymateb i argyfwng wedi'i rannu â nifer yr ymatebion i argyfwng. Mae’r ambiwlansys hynny sy’n cymryd mwy o amser i gyrraedd eu cyrchfan yn fwy tebygol o effeithio ar y cymedr.

## Adolygiadau

Cyflwynir gwybodaeth yn ymwneud â diwygiadau yn y ‘Nodiadau ar gyfer cyhoeddiad y mis hwn’ ac yn yr wybodaeth sy'n cyd-fynd â setiau data StatsCymru bob mis.

## Perthnasedd

### Beth yw'r ffyrdd posibl o ddefnyddio'r ystadegau hyn?

Bydd yr ystadegau hyn yn cael eu defnyddio mewn amryw o ffyrdd. Dyma rai enghreifftiau:

- cyngor i weinidogion
- asesu, rheoli a monitro perfformiad GIG Cymru yn erbyn targedau
- llywio prosiectau gwella gwasanaethau ar gyfer meysydd ffocws a chyfleoedd i wella ansawdd
- gan fyrddau iechyd lleol y GIG, i'w meincnodi eu hunain yn erbyn byrddau iechyd lleol eraill
- cyfrannu at erthyglau newyddion ar amseroedd aros
- helpu i bennu'r gwasanaeth y gall y cyhoedd ei gael gan GIG Cymru

### Pwy yw prif ddefnyddwyr posibl y data hyn?

Bydd yr ystadegau hyn yn ddefnyddiol o fewn Llywodraeth Cymru a’r tu hwnt

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-ionawr-chwefror-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

iddi. Dyma rai o'r prif ddefnyddwyr posibl:

- Gweinidogion a'u cynghorwyr
- Aelodau Senedd Cymru a Gwasanaeth Ymchwil Aelodau Senedd Cymru
- byrddau iechyd lleol
- awdurdodau lleol
- Yr adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn Llywodraeth Cymru a meysydd eraill o Lywodraeth Cymru
- Gwasanaeth Iechyd Gwladol Cymru
- Iechyd Cyhoeddus Cymru
- y gymuned ymchwil
- myfyrwyr, academyddion a phrifysgolion
- dinasyddion unigol a chwmnïau preifat
- y cyfryngau

### Gallai'r ystadegau fod yn ddefnyddiol hefyd ar gyfer llywodraethau eraill y DU

Adran Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Diogelwch y Cyhoedd Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon

Llywodraeth yr Alban

Adran Iechyd Lloegr

## Cymaroldeb

Mae pedair gwlad y DU yn cyhoeddi gwybodaeth am amrywiaeth o ystadegau am weithgarwch a pherfformiad y GIG. Nid oes modd cymharu'r ystadegau a gyhoeddir yn llwyr oherwydd: eu bod wedi cael eu cynllunio i fonitro targedau a ddatblygwyd ar wahân ym mhob gwlad; bod y ddarpariaeth a'r drefn categoreiddio gwasanaethau gofal heb ei drefnu yn amrywio ar draws y DU. Mae ystadegwyr ym mhob un o bedair gwlad y DU wedi cydweithio fel rhan o Grŵp Amseroedd Aros Cymharol y DU. Nod y grŵp oedd edrych ar draws yr ystadegau a gyhoeddwyd am iechyd, yn benodol amseroedd aros, a llunio

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-ionawr-chwefror-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

cymhariaeth o (i) beth sy'n cael ei fesur ym mhob gwlad, (ii) sut mae'r ystadegau'n debyg a (iii) ymhle mae'r gwahaniaethau allweddol. Mae'r wybodaeth honno ar gael ar **wefan Gwasanaeth Ystadegol y Llywodraeth**. Mae gwybodaeth am ambiwlansys ar gael yma:

**Gwasanaethau ambiwlans yn Lloegr**

**Gwasanaethau ambiwlans yn yr Alban**

**Gwasanaethau ambiwlans yng Ngogledd Iwerddon**

## Statws Ystadegau Gwladol

Ac eithrio ystadegau'r llwybr canser sengl, mae'r Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau wedi dynodi bod yr holl ystadegau eraill a gyflwynir yn y datganiad hwn yn Ystadegau Gwladol, yn unol â Deddf Ystadegau a Gwasanaeth Cofrestru 2007, sy'n dangos eu bod yn cydymffurfio â'r **Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau**.

Mae statws Ystadegau Gwladol yn golygu bod ein hystadegau yn cyrraedd y safonau uchaf o ran dibynadwyedd, ansawdd a gwerth cyhoeddus, a'n cyfrifoldeb ni yw sicrhau y cydymffurfir â'r safonau hyn.

Dylai'r holl ystadegau swyddogol gydymffurfio â phob agwedd ar y Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau. Dyfernir statws Ystadegau Gwladol iddynt yn dilyn asesiad gan gangen reoleiddio Awdurdod Ystadegau'r DU. Mae'r Awdurdod yn ystyried a yw'r ystadegau'n cyrraedd y safonau uchaf o ran cydymffurfio â'r Cod, gan gynnwys y gwerth y maent yn ei ychwanegu at benderfyniadau a dadleuon cyhoeddus.

Cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru yw parhau i gydymffurfio â'r safonau a ddisgwylir gan Ystadegau Gwladol. Os byddwn yn dechrau pryderu ynghylch p'un a yw'r ystadegau hyn yn dal i gyrraedd y safonau priodol, byddwn yn trafod unrhyw bryderon â'r Awdurdod yn brydlon. Gellir dileu statws Ystadegau Gwladol ar unrhyw adeg pan nad yw'r safonau uchaf yn cael eu cynnal, a gellir adennill y statws pan fo'r safonau'n cael eu hadfer.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-ionawr-chwefror-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Mae “Amser aros canser GIG Cymru”, “Gwasanaethau ambiwlans yng Nghymru”, “Amser a dreuliwyd yn Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys GIG Cymru”, “Amseroedd aros rhwng atgyfeirio a thriniaeth GIG Cymru”, “Amseroedd aros gwasanaethau diagnostig a therapi GIG Cymru” ac “Oedi wrth drosglwyddo gofal yng Nghymru” yn Ystadegau Gwladol.

Cadarnhawyd statws parhaus yr ystadegau hyn fel Ystadegau Gwladol yn 2011 ar ôl i’r **Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau wirio eu bod yn cydymffurfio**. Cynhaliwyd yr **asesiad llawn diweddaraf o'r ystadegau hyn yn erbyn y Cod Ymarfer** yn 2011.

## Ystadegau Arbrofol

Ystadegau Arbrofol yw’r ystadegau sy’n gysylltiedig â’r llwybr amheuaeth o ganser. Maent yn cael eu defnyddio i roi gwybod i ddefnyddwyr am y data a’r ffaith fod yr ystadegau yr adroddir arnynt yn dal i gael eu datblygu ac y gallai fod problemau o ran ansawdd y data. Fodd bynnag, mae’r ystadegau’n dal i fod o werth ar yr amod fod defnyddwyr yn eu hystyried yng nghyd-destun gwybodaeth am ansawdd y data sydd ar gael. Wrth i’r set ddata aeddfedu, bydd cwmpas ac ansawdd y data yr adroddir arnynt yn gwella, a gellir defnyddio’r data ar gyfer amrywiaeth eang o resymau buddiol.

Mae’r rhain yn ystadegau swyddogol sy’n cael eu cyhoeddi er mwyn cynnwys defnyddwyr a rhanddeiliaid yn y broses o’u datblygu ac fel ffordd o sicrhau ansawdd yn gynnar yn y broses.

Dylai’r holl ystadegau swyddogol gydymffurfio â holl agweddau Cod Ymarfer Ystadegau Swyddogol. Dyfernir statws Ystadegau Gwladol iddynt yn dilyn asesiad gan gangen reoleiddio Awdurdod Ystadegau’r DU. Mae’r Awdurdod yn ystyried a yw’r ystadegau’n cyrraedd y safonau uchaf o ran cydymffurfio â’r Cod, gan gynnwys y gwerth y maent yn ei ychwanegu at benderfyniadau a dadleuon cyhoeddus.

**Rhagor o wybodaeth am ddefnyddio ystadegau arbrofol**.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-ionawr-chwefror-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol 2015 yn ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae’r Ddeddf yn cyflwyno saith nod llesiant ar gyfer Cymru, sef: Cymru fwy cyfartal, llewyrchus, cydnerth, iachach a chyfrifol ar lefel fyd-eang, gyda chymunedau cydlynus a diwylliant bywiog lle mae’r Gymraeg yn ffynnu. O dan adran (10)(1) o’r Ddeddf, rhaid i Weinidogion Cymru wneud y canlynol: (a) cyhoeddi dangosyddion (“dangosyddion cenedlaethol”) y mae’n rhaid eu cymhwyso er mwyn mesur cynnydd tuag at gyrraedd y nodau llesiant, a (b) gosod copi o’r dangosyddion cenedlaethol gerbron Senedd Cymru. O dan adran 10(8) o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol, pan fo Gweinidogion Cymru yn diwygio’r dangosyddion cenedlaethol, cyn gynted ag sy’n rhesymol ymarferol, rhaid iddynt wneud y canlynol: (a) cyhoeddi'r dangosyddion fel y’u diwygiwyd a (b) gosod copi ohonynt gerbron y Senedd. Gosodwyd y dangosyddion cenedlaethol hyn gerbron y Senedd yn 2021. Mae’r dangosyddion a osodwyd ar 14 Rhagfyr 2021 yn disodli’r set a osodwyd ar 16 Mawrth 2016.

Mae gwybodaeth am y dangosyddion, ynghyd â naratif ar gyfer pob un o'r nodau llesiant a'r wybodaeth dechnegol gysylltiedig ar gael yn **adroddiad Llesiant Cymru**.

Rhagor o wybodaeth am **Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015**.

Gallai’r ystadegau sydd wedi eu cynnwys yn y datganiad hwn hefyd ddarparu naratif i gefnogi’r dangosyddion cenedlaethol a gallent gael eu defnyddio gan fyrddau gwasanaethau cyhoeddus mewn cysylltiad â’u hasesiadau llesiant lleol a’u cynlluniau llesiant lleol.

## Diweddariad nesaf

21 Ebrill 2022

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-ionawr-chwefror-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Hoffem gael adborth gennych

Rydym yn croesawu unrhyw adborth am unrhyw agwedd ar yr ystadegau hyn. Gellir anfon yr adborth drwy e-bost i'r cyfeiriad hwn **ystadegau.iechyd@llyw.cymru**.

# Manylion cyswllt


Ystadegydd: Rhys Strafford
Llinell Ymholiadau Cyffredinol
Ffôn: 0300 025 5050
E-bost: **ystadegau.iechyd@llyw.cymru**

Cyfryngau: 0300 025 8099


SFR 88/2022


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-ionawr-chwefror-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Ynghylch y ddogfen hon

Mae'r ddogfen hon yn gopi o'r dudalen we **Crynodeb perfformiad a gweithgaredd y GIG: Ionawr a Chwefror 2022** a lawrlwythwyd.

Ewch i **https://llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-ionawr-chwefror-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch; darllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig-ionawr-chwefror-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.